Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 37/2018

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2018

# Gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd i oedolion yn yr ystad ddiogel:

## Adroddiad o'r prif ganfyddiadau

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78937-473-5

# Gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd i oedolion yn yr ystad ddiogel: Adroddiad o'r prif ganfyddiadau

Madoc-Jones,I., Hughes,C., Dubberley, S., Gorden.C., Washington-Dyer,K., Wilson,F., Ahmed, A., Lockwood,K., Wilding, M.

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag:
Ian Jones
Gwasanaethau Gwybodaeth Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ebost: ian.jones006@llyw.cymru

# Tabl o'r Cynnwys


Tabl o'r Cynnwys ..... 1
Ffigurau ..... 2
Diolchiadau ..... 7
Rhagair ..... 8
1. Digartrefedd a Throsedd ..... 9
1.1 Digartrefedd ..... 9
1.2 Deddf Tai (Cymru) 2014 ..... 9
2. Llwybr Cenedlaethol: Trefniadau Cyflenwi ..... 14
3. Methodoleg y Gwerthusiad ..... 16
3.1 Nodau ac Amcanion ..... 16
3.2 Rhanddeiliad Awdurdodau Lleol ..... 16
3.3 Rhanddeiliaid Carchardai ..... 17
3.4 Rhanddeiliad Cymunedol ..... 18
3.5 Ymatebwyr gadawyr carchar ..... 18
3.6 Swyddogion Cyfrifol ..... 20
3.7 Ystyriaethau Moesegol ..... 21
3.8 Dadansoddi a Chyflwyno Data ..... 21
3.9 Cyfyngiadau'r Ymchwil ..... 22
4. Canfyddiadau: Cyfnod Derbyn ..... 23
5. Canfyddiadau: Ailsetlo ..... 33
6. Canfyddiadau: Cyfnod ar ôl Rhyddhau ..... 52
6.1 Canfyddiadau ..... 52
6.2 Gadawyr Carchar Risg Uchel/Canolig/Isel ..... 54
6.3 Rhywedd ..... 57
6.4 Ymgysylltu â Charcharorion yn y Gymuned ..... 59
6.5 Statws Angen Blaenoriaethol ..... 65
6.6 Digartrefedd Bwriadol ..... 71
6.7 Cysylltiadau Lleol ..... 72
6.8 Cefnogi Pobl a Gwasanaethau Cefnogi ..... 73
6.9 Dyletswydd Terfynol ..... 75
6.10 Dyletswyddau Rhyddhau ..... 76
7. Canfyddiadau: Arfer Gwell ..... 77
7.1 Gweithio ar y Cyd a Rhannu Gwybodaeth ..... 77
7.2 Addasiadau Llwybr ..... 79
8. Canlyniadau ac Argymhellion ..... 85
Llyfryddiaeth ..... 89

| Ffigurau | Tudalen |
|---|---|
| Ffigur 1: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o amseroldeb asesiadau anghenion tai adeg derbyn i'r ddalfa | 23 |
| Ffigur 2: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o ansawdd asesiadau anghenion tai adeg derbyn i'r ddalfa | 24 |
| Ffigur 3: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o amseroldeb Cynlluniau Ailsetlo | 25 |
| Ffigur 4: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o ansawdd Cynlluniau Ailsetlo | 25 |
| Ffigur 5: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o'r modd y trafodir anghenion tai adeg derbyn | 26 |
| Ffigur 6: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o newidiadau ers Mai 2015 yn y niferoedd o garcharorion sy'n cael eu hanghenion tai wedi eu hasesu a'u trafod yn dilyn dedfryd | 28 |
| Ffigur 7: Statws llety ymatebwyr gadawyr carchar wrth gael eu derbyn i'r ddalfa (n=66) | 30 |
| Ffigur 8: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o amseroldeb Adolygiadau Ailsetlo | 33 |
| Ffigur 9: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o amseroldeb atgyfeiriadau Tai (Atodiad 8) | 34 |
| Ffigur 10: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o ansawdd atgyfeiriadau Tai (Atodiad 8/9) | 35 |
| Ffigur 11: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o'r modd y mae anghenion Tai yn cael eu trafod yn ystod y ffenestr ailsetlo | 40 |
| Ffigur 12: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o'r niferoedd o garcharorion sy'n cael eu hanghenion tai wedi eu hasesu a'u trafod yn ystod y ffenestr ailsetlo | 42 |
| Ffigur 13: Cyrchfan llety disgwyliedig ymatebwyr gadawyr carchar ar ôl cael eu rhyddhau | 50 |
| Ffigur 14: Statws ymatebwyr gadawyr carchar yn nilyniant ton 2 | 60 |
| Ffigur 15: Statws llety ymatebwyr gadawyr carchar a gyfwelwyd yn nhon 2 (n=22) | 61 |
| Ffigur 16: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o'r effaith y mae dileu statws awtomatig Angen Blaenoriaethol wedi ei gael ar niferoedd o adawyr carchar mewn oed sy'n gymwys ar gyfer llety dros dro yn Ardal eu Hawdurdod Lleol | 66 |
| Ffigur 17: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o'r niferoedd o adawyr carchar a rhyddhawyd yn ddigartref ers Mai 2015 | 68 |
| Ffigur 18: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o'r modd y mae gweithio ar y cyd wedi newid ers Mai 2015 | 77 |

## Talfyriadau a Geirfa

- **Angen Blaenoriaethol:** Mae Adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) yn dynodi'r bobl/aelwydydd hynny a ddylai gael eu hystyried mewn angen blaenoriaethol (NB: gellir eithrio yn ôl doethineb barn).
- **AP (Safleoedd Cymeradwy).** Hosteli a reolir gan yr NPS ac sydd fel arfer yn lletya troseddwyr Risg Uchel sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ddalfa.
- **Atodiad 8.** Y ffurflen atgyfeirio tai a gwblheir ar adawyr carchar, gyda'r bwriad o'i hanfon at ddarparwyr gwasanaethau prawf ac yna at adrannau tai 66 diwrnod cyn i adawyr carchar gael eu rhyddhau o'r ddalfa.
- **Atodiad 9.** Yr asesiad risg tai y dylid ei gwblhau gan ddarparwyr gwasanaethau prawf ac yna ei anfon, ynghyd ag atodiad 8, at adrannau tai awdurdodau lleol.
- **BASS (Gwasanaeth Llety a Chefnogaeth Mechnïaeth).** Sefydlwyd BASS ym Mehefin 2017 i ddarparu ffynhonnell llety a/neu gefnogaeth i'r rheiny a fyddai'n cael eu cadw mewn carchar fel arall. Mae hwn yn wasanaeth penodol ar gyfer diffynyddion y gellir eu mechnïo a throseddwyr y gellir eu rhyddhau ar HDC neu sydd yn rhwym wrth orchymyn cymunedol dwys gyda Gofyniad Llety (mae troseddwyr rhyw a throseddwyr risg uchel wedi eu heithrio ar hyn o bryd).
- **BCS1 (Sgrinio Sylfaenol mewn Dalfa 1).** Asesiad a gwblheir gan staff Gwasanaeth Carchar ar bob carcharor o fewn 3 diwrnod i gael eu derbyn i'r carchar.
- **BCS2 (Sgrinio Sylfaenol mewn Dalfa 2).** Cynllun Adsefydlu sy'n rhoi manylion gweithgareddau y dylid eu hymgymryd er mwyn hyrwyddo adsefydlu ac ailsetlo pan fydd dedfryd yn y ddalfa wedi dod i ben. Cwblheir hyn o fewn 5 diwrnod gwaith i'r BCS1 gan staff TTG.
- **Bwriadoldeb.** Term a ddefnyddir pan fo cefnogaeth tai wedi ei chyfyngu oherwydd penderfyniad awdurdod lleol fod unigolyn wedi gwneud rhywbeth yn fwriadol, neu wedi methu â gwneud rhywbeth, a arweiniodd at golli eu llety (a77 Deddf Tai (Cymru) 2014).
- **Canolfannau Mewn-Cysylltiad.** Mae'r Canolfannau hyn yn rhan o fodel gweithredu CRC Cymru. Eu bwriad yw cael gwared â swyddogaethau gweinyddu achosion arferol rheolaidd oddi wrth staff rheng flaen a blaenoriaethu amser wynebu-troseddwyr i reolwyr achos. Rheolir y rheiny a ystyrir yn risg isel o niwed gan y ganolfan trwy gyswllt teleffon.
- **CRCs (Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol).** Darparwyr Gwasanaethau Prawf i achosion risg isel a chanolig.
- **Cysylltiad Lleol:** Gallai person fod â chysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol os yw'r person yn byw neu wedi byw yno, yn gweithio yn yr ardal, oherwydd rhesymau teuluol neu oherwydd amgylchiadau arbennig.

- **Hyglwyfedd**: Maentumiai'r Llys Apêl, yn achos Pereira v Cyngor Camden, fod person digartref yn hyglwyf os yw eu hamgylchiadau yn golygu y buasent yn dioddef mwy pan yn ddigartref na'r 'person digartref arferol'.
- **IOM (Rheoli Troseddwyr Integredig).** Daw IOM ag ymateb trawsasiantaethol i'r bygythiadau o drosedd ac aildroseddu a wynebir gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwyr mwyaf dyfal a phroblematig yn cael eu dynodi a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner yn cydweithio.
- **LLG (Llywodraeth Cymru).** Datganolir tai i Gymru, a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r cyflenwad a'r dewis o dai, gwella ansawdd tai a darparu tai a llety cymdeithasol i bobl ddigartref. Nid yw gweithrediad y system cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli i Gymru, felly Llywodraeth y DU sy'n dal yn gyfrifol amdano (yn bennaf drwy'r Swyddfa Gartref a'r Weinidogaeth Gyfiawnder). Fodd bynnag, mae yna orgyffwrdd sylweddol gyda meysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru gan gynnwys iechyd, addysg, tai a chefnogaeth gofal cymdeithasol
- **MAPPA enwol (Trefniant Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd: enwol)**. Mae MAPPA enwol yn cyfeirio at dri categori o droseddwyr sy'n gymwys i gael eu rheoli ar naill ai Lefel 1, Lefel 2 neu Lefel 3 o dan Drefniadau Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaethol. Y tri chategori yw: Categori 1: Troseddwyr Rhyw; Categori 2: troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw eraill a ddedfrydir i 12 mis neu fwy yn y ddalfa. Categori 3: Eraill.
- **MAPPP (Panel Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaethol).** Mae'r term hwn yn cyfeirio at y troseddwyr hynny a reolir yn lefel 2 a lefel 3 o dan MAPPA a chan hynny yn rhwym wrth drafodaeth a rheolaeth mewn cyfarfodydd panel amlasiantaethol rheolaidd.
- **NPS (Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol).** Ers 2015, mae hwn yn gyfrifol yn unig am gynhyrchu adroddiadau llys a goruchwylio troseddwyr risg uchel, pob troseddwr rhyw a throseddwyr cymwys MAPPA.
- **OAsys (System Asesu Troseddwyr).** Yr offeryn asesu a ddefnyddir i asesu a chynllunio er mwyn cwrdd ag anghenion troseddwyr dan oruchwyliaeth. Mae OAsys yn archwilio 13 maes angen: Troseddau Presennol, Troseddu Blaenorol, Llety, Addysg a Hyfforddiant, Cyllid, Teulu a pherthnasau Personol, Iechyd Meddwl ac Emosiynol, Ffordd o Fyw a Chymdeithion, Defnyddio Sylweddau, Meddwl ac Ymddygiad, Agweddau a Risg.
- **OM (Rheolwr Troseddwr).** Mae OM yn derm cyffredin a ddefnyddir i ddisgrifio Swyddog Cyfrifol carcharor.

- **OMU (Uned Rheoli Troseddwyr).** Tîm o fewn carchar sy'n cynnwys staff carchar mewn iwnifform, staff CRC ac NPS. Maent yn ymgymryd â chynllunio dedfryd gyda charcharorion ac yn hyrwyddo ymwneud â gweithgaredd ac adsefydlu pwrpasol tra bod y person yn y ddalfa.
- **OS (Goruchwylwyr Troseddwyr).** CRC a staff carchar mewn iwnifform sy'n gyfrifol am oruchwylio troseddwyr risg isel a chanolig sy'n treulio dedfryd o dros 12 mis yn y ddalfa.
- **PHP (Cynlluniau Tai Personol).** Fel arfer, datblygir PHPs rhwng staff opsiynau tai awdurdodau lleol a'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae cynlluniau o'r fath yn amlinellu'r 'camau rhesymol' y gallai pob parti eu cymryd i atal digartrefedd neu helpu i sicrhau llety.
- **PLC (Prison Link Cymru).** Gwasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ymdrin ag anghenion carcharorion wrth iddynt gael eu derbyn i'r ddalfa.
- **Risg**: Ceir cryn ddryswch ynglŷn â'r gair 'risg', yn bennaf oherwydd y gellir ei ddehongli mewn sawl ffordd. Fe allai troseddwr gael ei ystyried yn risg uchel o aildroseddu, yn risg uchel o niweidio'i hun, yn risg uchel o ddianc ar fechnïaeth ayb. Yn y system cyfiawnder troseddol, defnyddir y term fel arfer i ddisgrifio troseddwyr a asesir fel bod yn 'Risg Uchel o Niwed Difrifol i eraill".
- **RO (Swyddogion Cyfrifol).** Mae hwn yn enw generig ar y person proffesiynol sy'n gyfrifol am oruchwylio troseddwr. Gallai'r Swyddog Cyfrifol fod o'r NPS neu'r CRC
- **RSO (Troseddwr Rhyw Cofrestredig).** RSO yw rhywun a euogfarnwyd am drosedd rhywiol ac yn gorfod arwyddo'r Gofrestr Troseddwyr Rhyw.
- **SEU: (Uned Eithrio Cymdeithasol)** Adran o'r Llywodraeth.
- **SPOC (Swyddog Cysylltiad Unigol).** Mae hyn yn cyfeirio at drefniadau lle mae (fel arfer) unigolyn unigol penodol yn gysylltbwynt mewn perthynas â mater neu fath o ddefnyddiwr gwasanaeth.
- **SP (Cefnogi Pobl).** Cyflwynwyd y rhaglen 'Cefnogi Pobl' yn 2003, gan ariannu gwasanaethau i ystod amrywiol o grwpiau sydd wedi eu heithrio yn gymdeithasol, gan gynnwys pobl gydag anawsterau dysgu a phobl gydag anawsterau iechyd meddwl. Y rhaglen yw'r brif ffynhonnell ariannu ar gyfer y mwyafrif o wasanaethau llety i bobl ddigartref gydag anghenion cefnogi ychwanegol. O Ebrill 2011 ymlaen, yn Lloegr, cafodd y dyraniad Cefnogi Pobl ei gynnwys yn y Grant Fformiwla a delir i awdurdodau lleol, a olygai nad oedd y dyraniad yn cael ei ddynodi ar wahân mwyach. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn ffrwd ariannu a ddynodir ar wahân yng Nghymru.

- **Swyddog Adsefydlu Carchar**. Aelod o dîm digartrefedd awdurdod lleol sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r rheiny sydd ar fin gadael y ddalfa.
- **TTG (Drwy'r Giât)**. Yr enw generig ar wasanaethau wedi eu hanelu at helpu gadawyr carchar i ailsetlo yn y gymuned. Mae CRCs yn gyfrifol am ddarparu Gwasanaethau 'Drwy'r Giât' ond ar y cyfan maent wedi isgontractio'r elfen honno o'r gwaith.
- **Working Links:** CRC Cymru.

## Diolchiadau

Hoffai’r tîm gwerthuso ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y gwerthusiad, neu a gyfrannodd ato. Yr ydym yn arbennig o ddiolchar i’r gadawyr carchar a ymatebodd i’n gwahoddiad i fod yn rhan o’r ymchwil ac a gytunodd i rannu eu profiadau o wasanaethau digartrefedd yn y ddalfa ac ar ôl eu rhyddhau. Yr ydym yn ddyledus iawn i’r holl ymarferwyr a gyfrannodd at y gwerthusiad, yn enwedig y rheiny a’n helpodd i ddod i gysylltiad â’r gadawyr carchar hyn yn y ddalfa ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Yr ydym yn ddiolchgar i’r staff yn Working Links a’n helpodd i drawsgyfeirio cronfeydd data er mwyn mynd ar drywydd a hwyluso cyfweliadau gyda gadawyr carchar yn y gymuned. Diolch yn olaf i Lucie Griffiths ac Ian Jones, rheolwyr cytundeb y gwerthusiad yn Llywodraeth Cymru. Trafodwyd y gwerthusiad mewn modd teg a diduedd ganddynt, gan wneud awgrymiadau defnyddiol gydol y broses, gyda golwg ar wella ansawdd yr adroddiad terfynol.

# Rhagair

Nod y gwerthusiad hwn yw asesu'r modd y gweithredwyd newidiadau i ddyletswyddau deddfwriaethol tuag at y rheiny sy'n gadael y ddalfa ers 2015 gan awdurdodau lleol, carchardai a darparwyr gwasanaethau prawf; pa effaith y mae'r newidadau wedi eu cael ar gartrefu gadawyr carchar; ac i ddynodi meysydd o arfer da wrth gwrdd ag anghenion tai gadawyr carchar.

Mae Pennod 1 yn darparu dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi ar gyfer datblygu a gweithredu'r Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Oedolion yn yr Ystad Ddiogel. Mae Pennod 2 yn sôn yn fras am y Trefniadau Cyflenwi presennol ar gyfer y llwybr. Yn cyd-fynd â'r adroddiad ceir papur cefndir sy'n rhoi archwiliad mwy manwl o'r ddau fater hwn. Mae Pennod 3 yn disgrifio'r fethodoleg a fabwysiadwyd i ymgymryd â'r gwerthusiad. Mae penodau 4, 5 a 6 yn eu tro yn cyflwyno'r canfyddiadau parthed gweithredu'r Llwybr Cenedlaethol ar adegau derbyn, cyn-ryddhau a chymunedol taith carcharor i mewn ac allan o'r ddalfa. Ym Mhennod 7, trafodir Arferion Gwell o ran gweithredu'r Llwybr Cenedlaethol. Yna ym mhennod 8 ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwerthusiad, a dynodir argymhellion ar gyfer gwella arferion.

# 1. Digartrefedd a Throsedd

## 1.1 Digartrefedd

Diffiniwyd digartrefedd gan y Cenhedloedd Unedig fel absenoldeb lloches parhaol sy'n peri i unigolion orfod cario eu heiddo gyda nhw a chymryd lloches lle y gallant (Cenhedloedd Unedig, 2004). Fodd bynnag, dadleuwyd yn rhywle arall fod yna gontinwwm o ddigartrefedd, gyda chysgu allan ar un pegwn a meddu ar amodau tai dros dro, ansicr neu annigonol ar y pegwn arall (Watson ac Austerberry 1986; Mackie 2015).

Mae'r berthynas union rhwng digartrefedd a throsedd yn gymhleth gan fod digartrefedd yn gallu digwydd gyda nifer o ffactorau, mae llawer o'r ymchwil i'r cysylltiad wedi archwilio'r berthynas rhwng digartrefedd a charchariad. Mae hyn ar ffurf astudiaethau sy'n archwilio'r nifer o bobl mewn carchardai a ystyrir yn ddigartref, neu fel arall y nifer o bobl a ystyrir yn ddigartref sydd wedi bod yn y carchar.

Yn ôl astudiaeth yr Arolwg Lleihau Troseddau Carcharorion (SPCR), roedd 15% o sampl o 1435 carchar a ddedfrydwyd yn 2005/2006 yn ddigartref cyn iddynt fynd i'r ddalfa (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2012). Ar y llaw arall, mae oddeutu 40% o bobl sy'n cysgu allan yn adawyr carchar diweddar (Uned Eithrio Cymdeithasol (SEU) 2002). Mae data o 2014/2015 yn awgrymu fod 32% o bobl sy'n cysgu allan yn Llundain wedi bod yn y carchar ar ryw adeg (Clinks, 2017).

Mae mynd i'r afael â digartrefedd ymhlith gadawyr carchar yn hybu ailsefydlu. Yn 2002, awgrymodd yr SEU y gallai cartrefu carcharorion leihau aildroseddu o 20%. Yn astudiaeth 2012 SPCR, cafodd dros dri-chwarter y carcharorion (79%) a ddywedodd eu bod yn ddigartref cyn mynd i'r ddalfa eu hail-gollfarnu yn y flwyddyn gyntaf ar ôl eu rhyddhau, o'i gymharu â thua hanner (47%) y rheiny na ddywedodd eu bod yn ddigartref cyn mynd i'r ddalfa (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2012)

## 1.2 Deddf Tai (Cymru) 2014

O 2009 ymlaen, dechreuodd Llywodraeth Cymru adolygu ei hagwedd tuag at gefnogi pobl a brofai neu a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2009). Ceisiwyd cyfres o adroddiadau yn archwilio polisi rhyngwladol yn y maes, ynghyd â safbwyntiau rhanddeiliaid am ddigonolrwydd

y fframwaith deddfwriaethol presennol (Mackie and Hoffman, 2011; Fitzpatrick et al., 2012, Mackie et al., 2012a, 2012b, 2012c).

Yn sgil ymgysylltu ac ymgynghori dilynol gydag ystod o randdeiliaid, dynodwyd cefnogaeth eang i ganolbwyntio mwy ar weithgareddau ataliol. Ymgorfforwyd ffocws o’r fath yn Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywydau Gwell a Chymunedau Gwell a gyhoeddwyd yn 2012 ac wedi hynny, o Ebrill 2015 ymlaen, cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) newidiadau sylweddol i’r modd y byddai digartrefedd yn cael ei daclo yng Nghymru.

Ceisiodd newidiadau i’r ddeddfwriaeth digartrefedd yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) ganolbwyntio gwasanaethau ar atal digartrefedd a darparu cymorth i bob ymgeisydd cymwys:

- Gosododd Adran 62 o’r Ddeddf ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gynnal asesiad ym mhob achos newydd lle mae person/aelwyd cymwys wedi gwneud cais am lety gyda nhw, neu gymorth i ddod o hyd i lety, a lle mae’r person/aelwyd hynny yn ddigartref neu wedi eu bygwth â digartrefedd yn y 56 diwrnod nesaf.
- Gosododd Adran 66 ddyletswydd i ‘helpu i atal’ person/aelwyd cymwys o’r fath rhag bod yn ddigartref.
- Lle mae person/aelwyd cymwys o’r fath yn ddigartref ac a allai fod yn y categori ‘angen blaenoriaethol’, gosododd Adran 68 ‘ddyletswydd interim’ ar Awdurdodau Lleol i osod person/aelwyd o’r fath mewn llety dros dros tra bod ymholiadau pellach yn cael eu gwneud.
- Gosododd Adran 73 ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu ‘help i sicrhau’ llety lle mae person/aelwyd yn gymwys am gymorth ac yn ddigartref. Mae’r ddyletswydd i helpu i sicrhau llety yn para am 56 diwrnod ond fe all ddod i ben cyn hynny mewn nifer o amgylchiadau penodol.
- Gosododd Adran 75 ddyletswydd derfynol ar awdurdodau lleol i sicrhau llety ar gyfer personau/aelwydydd mewn angen blaenoriaethol sydd â chysylltiadau lleol. Newidiwyd y gofyniad blaenorol i sgrinio ar gyfer ‘digartrefedd bwriadol’ o ddyletswydd i rym.

- Grymusodd Deddf Tai (Cymru) 2014 awdurdodau lleol i berfformio eu dyletswyddau trwy'r sector rhentu preifat yn ogystal â'r sector rhentu cymdeithasol Deddf Tai (Cymru) 2014.
- Dynododd Adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) y personau/aelwydydd hynny a ddylai gael eu hystyried mewn angen blaenoriaethol (NB: gellir eithrio fel y gwelir yn ddoeth):
  - Merched beichiog.
  - Personau/aelwydydd gyda phlant dibynnol.
  - Personau/aelwydydd sydd yn hyglwyf am resymau arbennig.
  - Personau/aelwydydd sy'n profi argyfwng yn sgil tân neu lifogydd.
  - Personau/aelwydydd sy'n profi camdriniaeth ddomestig.
  - Pobl sengl 16-17 oed.
  - Pobl 18-21 oed sydd mewn perygl o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.
  - Pobl 18-21 oed sydd wedi bod yn 'Blant y Gofalir Amdanynt' yn flaenorol.
  - Unigolion digartref a ddiswyddwyd o'r gwasanaethau arfog.
  - Person sydd yn hyglwyf o ganlyniad i fod yn y ddalfa.

Ceisiodd y Ddeddf gefnogi arferion oedd yn grymuso pobl i lunio datrysiadau i'w problemau llety a allai fod trwy 'Gynlluniau Tai Personol' (PHP) a ddatblygwyd ar y cyd a fyddai'n mynd i'r afael, nid yn unig â phroblemau llety uniongyrchol ond hefyd, lle'n berthnasol, â materion sylfaenol digartrefedd. I'r diben hwn, roedd y Ddeddf yn pwysleisio gweithio ar y cyd rhwng asiantaethau iechyd, cyfiawnder troseddol a gofal cymdeithasol er mwyn cwrdd yn well ag anghenion tai. Gan hynny, chwedl Shelter, roedd y Ddeddf yn ceisio rhoi athroniaeth newydd mewn grym:

*Mae athroniaeth y dull newydd hwn yn seiliedig ar weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill a phobl sy'n wynebu digartrefedd. Y nod yw annog pobl i lunio eu datrysiadau eu hunain, gan edrych nid yn unig ar broblemau tai uniongyrchol ond ar unrhyw faterion sylfaenol yn ogystal, gan ymyrryd yn fuan lle bynnag y bo modd er mwyn atal sefyllfaoedd pobl rhag mynd allan o reolaeth (Shelter 2015).*

O ganlyniad i'r ffocws newydd ar weithgareddau atal, rhagwelwyd y byddai mwy o bobl yn gymwys am gymorth nag oedd yna o'r blaen. Yn ogystal, disgwyliwyd i'r awdurdodau lleol geisio perfformio mwy o'u dyletswyddau digartrefedd trwy gynnig llety yn y sector preifat.

Diddymodd Deddf Tai (Cymru) y statws angen blaenoriaethol awtomatig a roddwyd i bob gadawr carchar yng Nghymru. Roedd statws angen blaenoriaethol, fodd bynnag, yn dal i gael ei roi i'r gadawyr carchar hynny a ystyriwyd yn "hyglwyf o ganlyniad i'w cyfnod yn y ddalfa" neu'r rheiny oedd yn cwrdd ag unrhyw un o'r meini prawf eraill er mwyn bod mewn angen blaenoriaethol. Rhagwelwyd na fyddai oddeutu 70% o'r carcharorion oedd â hawl ar ddyletswydd tai o'r blaen yn gymwys ar gyfer y dyletswyddau hynny mwyach (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2014).

O ganlyniad i bryderon ynghylch effeithiau posibl y newid hwn, a fynegwyd yn ystod sesiynau archwilio ar gyfer y Ddeddf (e.e. Shelter, 2013), sefydlwyd Gweithgor Llety ac Ailsetlo Carcharorion (PARWG) gan y cyn-Weinidog ar gyfer Tai ac Adfywio er mwyn archwilio prosesau i sicrhau y byddai anghenion gadawyr carchar yn dal i gael eu cwrdd yn ddigonol.

Datblygodd PARWG y 'Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn yr Ystad Ddiogel'. Nod y Llwybr Cenedlaethol yw cyfuno prosesau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau i garcharorion gydag anghenion tai a disgrifio'r systemau ar gyfer rheoli cyfathrebu a pherthnasau rhwng yr asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau perthnasol. Arweiniwyd datblygiad a gweithrediad y Llwybr Cenedlaethol i oedolion gan Lywodraeth Cymru, gyda chyfranogiad sylweddol gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru (a ailenwyd yn

HPPS Cymru); Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a ‘Working Links’- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru.

Daeth y Llwybr Cenedlaethol i rym yn Rhagfyr 2015, gan weithredu ar ffurf cysgodol o Fai 2015 ymlaen.

Mae agweddau allweddol o’r Llwybr Cenedlaethol yn cynnwys tasgau penodedig a neilltuir i asiantaethau penodol ar adegau allweddol yn nhaith carcharor trwy’r ddalfa. Cyflwynir y rhain ar dudalennau 16-17 o’r Llwybr Cenedlaethol.

Sicrhaodd Llywodraeth Cymru fod cyllid ar gael i gefnogi gadawyr carchar yn ystod cyfnod pontio 12 mis a thra bod y Llwybr Cenedlaethol yn cael ei weithredu (estynnir cyllid trosiannol hyd at 2018 ar hyn o bryd). Nod y cyllid hwn oedd talu am gefnogaeth frys, gan gynnwys cost llety byrdymor, i rai gadawyr carchar.

Mae adroddiad mwy manwl o’r berthynas rhwng digartrefedd a throsedd; y modd y mae Polisi Tai yng Nghymru wedi datblygu; a’r cyd-destun y gweithredwyd y Llwybr Cenedlaethol ynddo, ar gael fel papur cefndir ar wahân sy’n cyd-fynd â’r cyhoeddiad hwn.

## 2. Llwybr Cenedlaethol: Trefniadau Cyflenwi

2.1 Mae'r Llwybr Cenedlaethol i Oedolion yn yr Ystad Ddiogel (Cymru) yn berthnasol ac yn ymwneud ag arfer gyda charcharorion mewn naw carchar sy'n cartrefu carcharorion o Gymru yn gyson. Tra gallai sawl sefydliad gartrefu unigolion sy'n bwriadu ailsetlo yng Nghymru, ar y cyfan mae swyddogaethau derbyn dynion yn digwydd yn CEM Altcourse yng ngogledd Cymru a chanolbarth Cymru, ac yn CEM Caerdydd neu Abertawe yn ne Cymru. Yn achos merched, ymgymerir â swyddogaethau o'r fath gan CEM Styal yng ngogledd Cymru a CEM Eastwood Park yn ne Cymru.

2.2 Mae arfer cyffredinol o ran mynd i'r afael â digartrefedd yn cael ei drafod a'i ddatblygu yng Nghymru dan nawdd cyfarfodydd chwarterol ar wahân 'Rhwydwaith Digartrefedd' a 'Rhwydwaith Cefnogi Pobl'. Mynychir y cyntaf, Rhwydwaith Digartrefedd, gan staff opsiynau tai o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mynychir yr ail, Rhwydwaith Cefnogi Pobl, gan y prif swyddog(ion) o bob awdurdod lleol ar gyfer comisiynu a/neu reoli prosiectau a gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl.

2.3 Mae arfer o ran y Llwybr yn cael ei ddatblygu a'i hwyluso dan nawdd y tri Chyfarfod Ailsetlo Carcharorion Rhanbarthol (un yn y gogledd, un yn y De Ddwyrain, un yn y De Orllewin).

2.4 Ariennir gwasanaeth Prison Link Cymru (PLC) gan Llywodraeth Cymru trwy'r Grant Atal Digartrefedd. Mae'r gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion tai ar adeg derbyn i garchar ond, o ganlyniad o fod y tu hwnt i faes cyfrifoldeb CRC Cymru, ailnegodwyd hyn yn CEM Altcourse er mwyn i staff PLC fedru ymgymryd â'r gwaith adsefydlu a bod staff CRC yn ymgymryd â gwaith cyflwyno i'r carchar.

2.5 Mae'r rhan fwyaf o'r 22 ardal awdurdod lleol yn derbyn atgyfeiriadau tai yn uniongyrchol, ond ceir amrywiadau. Yng ngogledd Cymru, mae pedwar awdurdol lleol wedi defnyddio arian pontio i gyflogi 'Swyddog Cydgysyllu Carchar Rhanbarthol' sy'n derbyn pob atgyfeiriad tai (Atodiad 8), yn asesu pa ddyletswyddau sy'n ddyledus, ac yn cwblhau PHP sylfaenol cyn anfon y wybodaeth ymlaen i'r awdurdod perthnasol.

2.6 Mae'r rhan fwyaf o'r 22 ardal awdurdod lleol yn gweithredu gwasanaeth porth ar gyfer ymyriadau a ariennir gan Cefnogi Pobl.

2.7 Mae'r Prosiect Grymuso Rhyddhau Myfyrwyr (PREP) yn gweithredu ledled Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Torfaen, Pen-y-Bont ar Ogwr a Chasnewydd. Mae PREP yn darparu cymorth i garcharorion digartref a asesir heb fod mewn categori angen blaenoriaethol. Mae'r prosiect yn gweithio gyda gadawyr carchar i ddod o hyd i a chynnal tai, ac yn eu cefnogi i sicrhau pontio llwyddiannus a chadarnhaol o'r carchar i'r gymuned.

2.8 Mae'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchdardai (PACT) yn gweithredu gwasanaeth mentora ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth hwn yn fwy datblygedig mewn rhannau o dde Cymru. Mae gwasanaeth PACT yn darparu gwasanaeth cyrchu a gollwng i'r rheiny sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa, a gwasanaeth mentora tymor hirach (tri chytundeb). Cyflogir cysylltbwynt PACT unigol (SPOC) yn CEM Caerdydd ac mae yna weithiwr in situ yn CEM Eastwood Park. Mae yna gynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth yn CEM Abertawe a CEM Berwyn. Darperir gwasanaeth PACT i droseddwyr o dan oruchwyliaeth CRC, ond gall NPS ei brynu i mewn am ffi sefydlog.

2.9 Mae Justice Cymru yn fenter Cymru gyfan sy'n gosod gweithwyr tai o fewn timau CRC. Mae gweithiwr Justice Cymru yn ymgysylltu â throseddwyr yn y gymuned a, lle bo angen, yn y ddalfa er mwyn eu hysgogi a'u cefnogi i ymgysylltu â gwasanaethau. Mae'n bosibl fod gan staff Justice Cymru eu cysylltiadau eu hunain â darparwyr gwasanaethau tai. Cyflenwir gwasanaethau 'Justice Cymru' gan gonsortiwm o ddarparwyr a'u contractio gan CRC Cymru; Working Links. Fe allai'r gwasanaeth gael ei gyrchu gan staff NPS trwy dalu ffi sefydlog.

2.10 Mae yna brosiect Braenaru i Ferched yng Nghaerdydd sy'n darparu cyngor a chymorth cysylltiedig â thai i garcharorion benywaidd fel rhan o ddull amlasiantaethol.

# 3. Methodoleg y Gwerthusiad

## 3.1 Nodau ac Amcanion

3.1.1 Nod yr ymchwil oedd ymgymryd â phroses ôl-weithredu a gwerthusiad effaith o'r gwasanaethau digartrefedd sydd ar gael i oedolion sy'n gadael yr ystad ddiogel yng Nghymru. Amcanion yr ymchwil oedd:

- Asesu'r modd y gweithredwyd y newidiadau i ddyletswyddau deddfwriaethol gan Awdurdodau Lleol, carchardai a darparwyr prawf yn y carchar ac yn y gymuned.
- Ymgymryd ag asesiad cychwynnol o effaith y newidiadau hyn ar gyn-droseddwyr.
- Dynodi meysydd o arfer da a meysydd lle gellir gwella.

3.1.2 Wrth drafod gyda noddwyr, dynodwyd methodoleg yn cynnwys ymchwil dulliau cymysg cyflin yn briodol. Roedd y pump grŵp astudio fel a ganlyn:

- Rhanddeiliad Awdurdodau Lleol
- Rhanddeiliaid Carchardai
- Rhanddeiliad Cymunedol
- Ymatebwyr Gadawyr Carchar.
- Swyddogion Cyfrifol

## 3.2 Rhanddeiliad Awdurdodau Lleol

3.2.1 Yn ystod Mehefin 2017, dynodwyd cynrychiolydd o bob un o dimau opsiynau tai (arweinwyr digartrefedd) y 22 ardal awdurdod lleol gan reolwyr cytundeb Llywodraeth Cymru i gymryd rhan mewn arolwg ar-lein. Cytunwyd ar yr holiadur byr (gan ddefnyddio'r meddalwedd arolwg ar-lein Qualtrics) gan reolwyr cytundeb, gan gynnwys cyfuniad o gwestiynau caeedig a phen-agored er mwyn cynhyrchu data mesurol ac ansoddol. Anfonwyd dolenni i'r arolwg trwy ebost at staff a enwebwyd ac, yn unol â gweithgaredd dilynol, cafwyd ymateb gan bob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

3.2.2 O ganlyniad, cysylltwyd â phob un o'r 22 ymatebydd a'u gwahodd i ddynodi aelod o staff ychwanegol i gyfrannu at yr ymchwil trwy gymryd rhan mewn cyfweliad ansoddol. Yn dilyn hyn, ac yn ystod Gorffennaf 2017, cymerodd 21 rhanddeiliad (yn cynrychioli 19 o'r 22 ardal awdurdod lleol) o dimau Opsiynau Tai neu Cefnogi Pobl mewn cyfweliad ar y ffôn (n=19) neu wyneb yn wyneb (n=2). Cysylltwyd â'r unigolion hyn trwy ebost a'u darparu gyda thaflenni gwybodaeth a ffurflenni caniatâd. Wedi hynny, cytunwyd ar amser cyfleus i gynnal cyfweliad. Cytunwyd ar gyfweliadau lled-stwythuriedig, a ganolbwyntiai ar arferion llety gyda charcharorion adeg derbyn, cyn-rhyddhau a chymunedol eu siwrnai i mewn ac allan o'r ddalfa, o flaen llaw gyda rheolwyr cytundeb Llywodraeth Cymru. Cafodd pob cyfweliad ei recordio a'i drawsgrifio air am air er dibenion dadansoddi data dilynol.

## 3.3 Rhanddeiliaid Carchardai

3.3.1 Gan wneud defnydd o'r wybodaeth a fodolai eisoes o fewn y tîm gwerthuso ynghylch y modd y mae carchardai oedolion wedi eu strwythuro, y modd y comisiynir gofodau gwely ac yr ymdrinnir â rheoli troseddwyr yng Nghymru, cytunwyd ar restr o unigolion gyda chyfrifoldebau dros gyflenwi'r Llwybr Cenedlaethol yn weithredol o fewn sefydliadau carchar gyda rheolwyr cytundeb. O ganlyniad, cysylltwyd â'r unigolion hyn (n=27) trwy ebost a'u gwahodd i gyfrannu at y gwerthusiad. Derbyniwyd gwahoddiadau i gyfrannu at y gwerthusiad gan Arweinwyr Ailsetlo Carchardai; staff ailsetlo TTG mewn carchardai; staff CRC (strategol); staff NPS ac CRC staff (strategol); staff Prison Link Cymru; cynrychiolwyr Prawf AEM/Carchardai AEM; staff IOM Cymru; NOMS/HMPPS: rheolwyr cytundeb. Cymerodd 19 unigolyn ran mewn cyfweliadau ar y ffôn (12) neu wyneb yn wyneb (7) yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2017. Fel cynt, cytunwyd o flaen llaw ar gyfweliadau lled-stwythuriedig, a ganolbwyntiai ar arferion llety gyda charcharorion adeg derbyn, cyn-rhyddhau a chymunedol ar eu siwrnai i mewn ac allan o'r ddalfa, gyda rheolwyr cytundeb Llywodraeth Cymru. Cafodd pob cyfweliad ei recordio a'i drawsgrifio air am air er dibenion dadansoddi data dilynol.

3.3.2 O hyn ymlaen, bydd yr ymatebwyr hyn yn cael eu dynodi a'u grwpio ynghyd yn yr adroddiad hwn fel 'rhanddeiliaid carchardai'. Mae hyn am y gallai eu cyfraniad ymwneud yn bennaf â'r modd y gweithredai'r Llwybr Cenedlaethol ar adegau derbyn a chyn-rhyddhau siwrnai carcharor i ac allan o'r ddalfa.

## 3.4 Rhanddeiliad Cymunedol

3.4.1 Gan wneud defnydd o'r wybodaeth a'r cytundebau a oedd ganddynt eisoes, dynododd rheolwyr cytundeb Llywodraeth Cymru gyrff a darparwyr gwasanaethau ledled Cymru sy'n darparu gwasanaethau i adawyr carchar a phobl sy'n wynebu digartrefedd. O ganlyniad, cysylltwyd â'r cyrff hyn (n=35) trwy ebost a'u gwahodd i gyfrannu at y gwerthusiad. Derbyniwyd gwahoddiad i gyfrannu gan: Nacro; Rough Sleepers Cymru; St Giles' Trust; Cynrychiolwyr o Gymdeithasau Tai; Heddlu; rheolwyr hosteli; Justice Cymru; staff PREP; Pobl. Cymerodd 18 unigolyn ran mewn cyfweliad ar y ffôn (14) neu wyneb yn wyneb yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2017. Yma hefyd, defnyddiwyd a chytunwyd o flaen llaw ar gyfweliadau lled-stwythuriedig, a ganolbwyntiai ar arferion llety gyda charcharorion adeg derbyn, cyn-rhyddhau a chymunedol ar eu siwrnai i mewn ac allan o'r ddalfa, gyda rheolwyr cytundeb Llywodraeth Cymru. Cafodd pob cyfweliad ei recordio a'i drawsgrifio air am air er dibenion dadansoddi data dilynol.

3.4.2 O hyn ymlaen, bydd yr ymatebwyr hyn yn cael eu dynodi a'u grwpio ynghyd yn yr adroddiad hwn fel 'rhanddeiliaid cymunedol'. Mae hyn am y gallai eu cyfraniad ymdrin yn bennaf â'r modd yr effeithiai'r Llwybr Cenedlaethol ar brofiadau gadawyr carchar yn y gymuned ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa.

## 3.5 Ymatebwyr gadawyr carchar

3.5.1 Roedd y strategaeth ar gyfer ymgysylltu â gadawyr carchar yn canolbwyntio ar bum carchar: CEM a STI Caerdydd; CEM a Sti Parc; CEM a STI Eastwood Park; CEM Altcourse; CEM Styal. Roedd hyn er mwyn sicrhau fod yr ymchwil yn ymdrin â phrofiadau ystod o adawyr carchar gan gynnwys y rheiny sy'n bwrw dedfryd o lai na 12 mis yn y ddalfa, dros 12 mis yn y ddalfa, carcharorion benywaidd a gwrywaidd,

carcharorion duon ac ethnig lleiafrifol (BME), troseddwyr mynych a'r rheiny o ystod o Awdurdodau Lleol.

3.5.2 Gofynnwyd i'r sefydliadau carchar a ddewiswyd recriwtio carcharorion oedd ar fin cael eu rhyddhau mewn astudiaeth ailsetlo. Y bwriad oedd cyfweld y gadawyr carchar hyn 4-6 wythnos cyn iddynt gael eu rhyddhau (cyfweliadau ton 1) a 2-3 mis ar ôl iddynt gael eu rhyddhau (ton 2).

3.5.3 Gofynnwyd hefyd i'r carchardai a ddewiswyd recriwtio carcharorion a dderbyniwyd i'r ddalfa yn ddiweddar ac a oedd wedi derbyn ymyriad tai mewn astudiaeth dderbyn. Fodd bynnag, dim ond un carchar a allodd wneud hyn. Gallai gadawyr carchar oedd ar fin cael eu rhyddhau, fodd bynnag, hefyd drafod y modd yr oedd y Llwybr Cenedlaethol yn berthnasol adeg derbyn. Roedd hyn am fod bron i bob un yn bwrw dedfrydau carchar oedd yn dyddio cyn i'r Llwybr Cenedlaethol ddod i rym.

3.5.4 Cynhaliwyd cyfweliadau Ton 1 yng Ngorffennaf 2017 a chyfwelwyd cyfanswm o 75 carchar. Dynododd 59 o'r carcharorion eu hunain fel gwrywod, 16 fel benywod. Oedran yr ymatebwyr ar gyfartaledd oedd 36. Roedd yr ymatebwr ieuengaf yn 21, a'r hynaf yn 56.

3.5.5 Darparodd 67 o'r ymatebwyr gadawyr carchar fanylion eu statws cyfreithiol:

- Roedd 8 ar remand (a gyfwelwyd fel Achosion Derbyn).
- Roedd 2 yn garcharorion dedfryd amhenodol (oes) oedd ar fin cael eu rhyddhau.
- Roedd 23 yn tynnu at derfyn eu dedfrydau o 12 mis neu fwy.
- Roedd 34 yn tynnu at derfyn eu dedfrydau o lai na 12 mis (gyda 28 ohonynt yn bwrw dedfrydau o chwe mis neu lai)
- Roedd 15 o'r 59 carcharor a ddedfrydwyd yn ôl yn y ddalfa ar ôl cael eu hadalw[1].

3.5.6 Dywedodd tri o'r ymatebwyr gadawyr carchar eu bod o'r grŵp BME, a dywedodd tri arall eu bod o'r gymuned deithiol.

[1] Manylion dedfryd cyfeirnod mynegai troseddau/ hyd y ddedfryd nid adalw

3.5.7 Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau un i un rhwng ymchwilydd a'r carcharor. Mewn un carchar, fodd bynnag, aseswyd ei bod yn weithredol briodol i staff TTG eistedd gyda'r ymchwilydd ar gyfer rhai cyfweliadau.

3.5.8 Ac eithrio'r wyth carcharor a gymerodd ran yn yr astudiaeth dderbyn, roedd 67 ymatebwr gadawr carchar yn gymwys i gael eu dilyn i fyny a chawsant eu gwasgaru ledled 14 ardal awdurd lleol.

3.5.9 Trefnwyd cyfweliadau dilynol ton 2 trwy Swyddog Cyfrifol pob ymatebwr gadawr carchar (n=56). Roedd yna lai o Swyddogion Cyfrifol am fod rhai yn goruchwylio mwy nag un ymatebydd ton 2 posibl.

3.5.10 Arweiniodd ymdrechion ailgysylltu ag ymatebwyr gadawyr carchar rhwng Hydref a Rhagfyr 2017 at gynnal 22 cyfweliad ton 2. Cynhaliwyd tri o'r cyfweliadau hyn ar y ffôn, a'r gweddill wyneb yn wyneb.

3.5.11 Cwblhawyd pob cyfweliad â charcharorion (ton 1 a 2) gan ddefnyddio cyfweliadau lled-stwythuriedig a ganolbwyntiai ar eu profiadau o gefnogaeth llety hyd at adeg y cyfweliadau. Lle'n briodol, gofynnwyd i ymatebwyr sôn am eu profiadau cyn ac ar ôl Mai 2015. Ar ôl cael caniatâd sefydliadol, cafodd pob cyfweliad ei recordio a'i drawsgrifio air am air er dibenion dadansoddi data dilynol.

## 3.6 Swyddogion Cyfrifol

3.6.1 Gwnaed ymdrechion i ddynodi a chyfweld pob un o'r 56 Swyddog Cyfrifol a oruchwyliai'r 67 ymatebwr gadawr carchar oedd yn cymryd rhan yn yr astudiaeth ac yn gymwys ac yn barod i gymryd rhan mewn cyfweliadau ton 2. Cysylltwyd â'r unigolion hyn trwy ebost, wedyn cyfwelwyd 34 Swyddog Cyfrifol o'r NPS a CRC Cymru, naill ai ar y ffôn (9) neu wyneb yn wyneb (25). Roedd cyfweliadau wyneb yn wyneb fel arfer yn cyd-fynd ag ymweliadau â swyddfeydd maes i gynnal cyfweliadau ton 2 gyda gadawyr carchar (Hydref-Rhagfyr 2017). Er mwyn ymdrin â phryderon ynghylch dyfynnu staff, cynlluniwyd y cyfweliadau i fod mewn ymgynghoriad â rheolwyr cytundeb yr ymchwil i fod yn gryno. Roeddent yn lled-strwythuriedig ac yn canolbwyntio ar brofiadau ymatebwyr o weithrediad y Llwybr Cenedlaethol. Cawsant hefyd eu trawsgrifio air am air er dibenion dadansoddi data dilynol.

## 3.7 Ystyriaethau Moesegol

3.7.1 Cyfwelwyd ymatebwyr gadawyr carchar ar yr amod y barnwyd eu bod yn gallu caniatáu ac yn cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Aseswyd hyn ym mhob cam o'r broses recriwtio (cyn-gysylltu gan borthorion a chyn y cyfweliad gan ymchwilwyr). Bwriadwyd i rai cyfyngiadau fod yn berthnasol o ran cyfrinachedd ac anhysbysrwydd. Dynodwyd y rhain yn y taflenni gwybodaeth a roddwyd i ymatebwyr posibl ac yn y ffurflenni caniatâd.

3.7.2 Eglurodd yr ymchwilwyr fod pob ymatebwr yn rhydd i benderfynu pa wybodaeth y dymunent ei rhannu gyda'r ymchwilydd ac na ddylent deimlo dan unrhyw bwysau na gorfodaeth i drafod materion nad oeddent yn dymuno eu trafod. Wrth gyfweld, dilynai'r ymchwilwyr Bolisi Rheoli Trallod a Rheoli Datgeliadau.

3.7.3 Comisiynwyd yr ymchwil gan Lywodraeth Cymru a'i chymeradwyo trwy broses y Cyngor Ymchwil Cenedlaethol, gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (Cymru), Working Links (CRC Cymru); Purple Futures (CRC yn y Gogledd Orllewin), Pwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Llywodraethwyr y carchardai a gyfranogodd yn yr astudiaeth ymchwil.

## 3.8 Dadansoddi a Chyflwyno Data

3.8.1 Roedd y dull dadansoddi data yn cynnwys aelodau o'r tîm ymchwil yn codio cyfweliadau ac yn ymgysylltu â'r prif ymchwilydd yn dilyn pob rownd o gasglu data er mwyn dynodi'r themâu allweddol a godai o ran y tair carreg filltir allweddol yn y Llwybr Cenedlaethol: cyfnodau derbyn, ailsetlo ac ôl-ryddhau siwrnai carcharor i mewn ac allan o'r carchar.

3.8.2 Wrth i'r data gael ei ddadansoddi, ceisiai staff gadw mewn cof fod y system cyfiawnder troseddol yn ymosodol, ac un o ddibenion adroddiadau'r cyfweliadau yw cyfleu hunan-ddelweddau dewisol yr adroddwyr  (Blaxter, 1997). Gan hynny, wrth gyflwyno'r data, mae'r ffocws ar y darlun eang a chanfyddiadau sy'n dal cysondebau o fewn a rhwng adroddiadau ymatebwyr. Ar y cyfan, fodd bynnag, y farn yw y gellir dynodi persbectif croes neu amgen mewn ymchwil ansoddol bob amser bron. Fodd bynnag, gallai rhoi pwys cyfartal i bob un ohonynt gamgynrychioli'r persbectif cyffredinol a chymylu'r darlun ehangach.

3.8.3 Wrth gyflwyno'r canfyddiadau, dynodir yr ymatebwyr yn rhanddeiliaid awdurdodau lleol, cymunedol, neu garchardai; yn Swyddogion Cyfrifol neu'n ymatebwyr gadawyr carchar. Defnyddir y term olaf er mwyn osgoi dryswch pan fwriedir cyfeirio at adawyr carchar yn gyffredinol yn hytrach na'r ymatebwyr gadawyr carchar a gyfrannodd at yr ymchwil – h.y. mae canfyddiadau'r astudiaeth yn ymwneud yn benodol â'r gadawyr carchar a gymerodd ran yn yr astudiaeth, ac ni ddylent gael eu cyffredinoli i bob gadawr carchar. Cyfeirir yn achlysurol at randdeiliaid proffesiynol pan fo'r canfyddiad yn berthnasol i bob grŵp rhanddeiliaid a Swyddogion Cyfrifol. Yn olaf, lle mae'n rhaid hepgor gwybodaeth er mwyn diogelu anhysbysrwydd, defnyddir xxxx i gynrychioli'r golygiad.

## 3.9 Cyfyngiadau'r Ymchwil

3.9.1 Cyfyngir yr astudiaeth gan ei dibyniaeth ar ganfyddiadau, atgofion ac unrhyw ragfarnau hunangeisiol. Mae'n dilyn ymlaen o gynllun yr astudiaeth y gallai'r ymatebwyr gadawyr carchar a gyfwelwyd yn nhon 2 feddu ar y profiadau mwyaf cadarnhaol o wasanaeth a ddarperir i oedolion sy'n gadael yr ystad ddiogel.

3.9.2 O ran cyflwyno data, cymerir pwyll o ran dod i ganlyniadau penodol ynghylch pa asiantaeth wnaeth ddarparu pa fathau o gymorth i ymatebwyr gadawyr carchar. Mae hyn am na ddynodai ymatebwyr gadawyr carchar yn aml pa asiantaeth wnaeth eu helpu, gan gyfeirio'n hytrach, fel arfer wrth eu henw cyntaf, at weithiwr penodol yr oedd eu tadogaeth yn anhysbys iddynt.

3.9.3 Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, roedd yr astudiaeth yn cynnwys nifer fawr o ymatebwyr (N=189) a chyfweliadau (n=211). Cafwyd cysondebau o fewn a rhwng adroddiadau a roddwyd gan y defnyddiwr gwasanaethau a'r ymatebwyr ddarparwyr, ac mae'r argymhellion polisi ac arfer a wneir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar asesiad ystyrlon o'r dystiolaeth. Gan hynny, mae'r astudiaeth yn cwrdd â'r amcanion o ddarparu asesiad cynnar o weithrediad ac effaith y gwasanaethau digartrefedd sydd ar gael i oedolion sy'n gadael yr ystad ddiogel.


# 4. Canfyddiadau: Cyfnod Derbyn

4.1 Ledled y grwpiau ymatebwyr, aseswyd helpu carcharorion i gynnal llety wrth gael eu derbyn i garchar fel rhywbeth pwysig a chysylltiedig â deilliannau cadarnhaol ar gyfer rhyddhau gadawyr carchar:

> *Os allwch chi helpu rhywun i gadw eu llety, neu derfynu un fel nad oes ganddyn nhw ôl-ddyledion pan fyddan nhw'n cael eu rhyddhau, mae hynny'n amlwg yn mynd i fod yn rhywbeth da pan fyddan nhw'n dod allan (Rhanddeiliad carchar).*

4.2 Roedd rhanddeiliad awdurdodau lleol, fodd bynnag, yn aml yn methu ag asesu a gwerthuso'r ystod a'r ansawdd o waith a aeth tuag at atal digartrefedd pan ddedfrydwyd pobl i'r ddalfa. Roedd y rheiny a allai, yn dueddol o fod yn amheugar ynghylch a oedd y gweithgareddau angenrheidiol yn digwydd. Er enghraifft, yn yr arolwg, holwyd ymatebwyr awdurdodau lleol ynghylch amseroldeb asesiadau tai (h.y. cwblhau'r BCS1) adeg derbyn. Dyma'r ymatebion a roddwyd ganddynt:

**Ffigur 1: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdodau lleol o amseroldeb asesiadau anghenion tai adeg derbyn i'r ddalfa**





Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 21 i'r cwestiwn hwn)

4.3 Fel y gwelir, credai hanner yr ymatebwyr arolwg awdurdod lleol nad oeddent mewn sefyllfa i wneud sylw ynghylch amseroldeb asesiadau tai adeg derbyn (n=11). O’r rheiny a oedd, dim ond un ymatebydd oedd o’r farn eu bod yn cael eu cwblhau ar amser ‘yn aml iawn’.

4.4 Gofynnwyd i’r un ymatebwyr roi eu barn ynghylch yr asesiadau a gwblhawyd ar anghenion tai carcharorion wrth iddynt gael eu derbyn i’r ddalfa:


**Ffigur 2: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdodau lleol o ansawdd asesiadau angen tai wrth dderbyn i'r ddalfa**




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 21 i’r cwestiwn hwn)

4.5 Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr arolwg awdurdod lleol na allent wneud sylw ynghylch ansawdd asesiadau a gwblhawyd ar anghenion tai carcharorion wrth iddynt gael eu derbyn i’r ddalfa (n=13). O’r rheiny a wnaeth sylw, cafwyd rhaniad eithaf cyfartal rhwng y rheiny a gredai fod ansawdd yr asesiadau yn wael (n=4) a’r rheiny a gredai fod ansawdd yr asesiadau yn dderbyniol (n=3).


4.6 Gofynnwyd i ymatebwyr arolwg awdurdod lleol wneud sylw hefyd ynghylch amseroldeb cwblhau ‘Cynllun Ailsetlo’ BSC 2:




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 21 i’r cwestiwn hwn)

4.7 Fel y dynoda’r ymatebion hyn, ni allai bron i hanner ymatebwyr yr arolwg wneud sylw ar yr agwedd yma o ymarfer (n=10). O’r rheiny a wnaeth sylw ynghylch Cynlluniau Ailsetlo BCS2, credai pump fod Cynlluniau Ailsetlo yn cael eu cwblhau ar amser ‘weithiau’, ac awgrymodd chwech eu bod yn ‘anaml’ neu ‘byth’ yn cael eu cwblhau ar amser neu ‘heb eu cwblhau’.


4.8 Gofynnwyd i ymatebwyr werthuso ansawdd y cynlluniau a welwyd ganddynt:




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 21 i’r cwestiwn hwn)

4.9 Yma eto, ni allai llawer o ymatebwyr arolwg awdurdod lleol wneud sylw ar ansawdd y cynlluniau (n=9), ond o'r rheiny a wnaeth, credai pump fod yr ansawdd yn 'dderbyniol' a chredai saith fod yr ansawdd yn 'wael', yn 'wael iawn', neu nad oedd y cynlluniau wedi eu cwblhau.

4.10 Ni waeth pa mor amserol a digonol y gall asesu a chynllunio fod, gallai'r gweithgaredd gofynnol parthed ymdrin ag anghenion tai adeg derbyn gael ei ymgymryd o hyd. Gan hynny, holwyd ymatebwyr arolwg awdurdod lleol am eu profiadau o'r modd yr ymdrinnir ag anghenion tai adeg derbyn.




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 21 i'r cwestiwn hwn)

4.11 Credai'r rhan fwyaf o ymatebwyr nad oeddent mewn sefyllfa i wneud sylw am y modd yr ymdrinnir ag anghenion tai adeg derbyn i'r ddalfa (n=14). Credai eraill fod yr anghenion yn cael eu trin 'weithiau' (n=2) neu'n 'anaml' neu 'fyth' (n=5).

4.12 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ymhelaethu ar eu hatebion fel rhan o'r arolwg, dywedasant yn syml nad oeddent yn gwybod beth sy'n digwydd yn ystod prosesau derbyn i'r ddalfa. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd wrthym:

*Anaml iawn y mae unrhyw gynlluniau tai yn cael eu rhannu gyda'r Awdurdod yma, felly'r unig ganlyniad y gallaf ddod iddo yw - naill ai 'dyw cynlluniau ddim yn cael eu gwneud ar ôl derbyn neu eu bod yn cael eu gwneud, ond ddim yn cael eu hatgyfeirio/adrodd (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol)*


4.13 Y mae'n amlwg yn broblematig nad yw Awdurdodau Lleol yn gweld pa mor dda, os o gwbl, yr ymgymerir â BCS1, BCS2 a gweithgareddau atal mewn carchardai. Nid yw Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol unigol mewn sefyllfa i sicrhau ansawdd a datblygu arferion gyda charcharorion a allai wynebu neu brofi digartrefedd heb fynediad i ddata ynghylch graddau, ystod a deilliant gweithgareddau yr ymgymerir â nhw.

4.14 O ganlyniad i beidio â chael gwahoddiad mynych i helpu i atal digartrefedd, fodd bynnag, roedd y rhanddeiliad awdurdodau lleol a gyfwelwyd yn amau a oedd gweithgaredd priodol i amddiffyn tenantiaethau yn digwydd pan oedd carcharorion yn cael eu derbyn i'r ddalfa:

*Hwyrach eu bod nhw'n gwneud rhywbeth nad ydym ni'n ymwybodol ohono ond pan nad ydym yn ymwybodol ohono, fe allai ymddangos fel nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud o'n safbwynt ni, gan nad oes neb yn rhoi atborth ac yn dweud "y mis yma daeth y nifer yma o bobl i'r carchar a chafodd y nifer yma o denantiaethau eu hachub o ganlyniad" a "wnaethon nhw ddim dod atoch chi gan i ni ddelio gyda nhw" (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

4.15 Gofynnwyd i ymatebwyr arolwg awdurdod lleol am eu barn ynghylch a oedd unrhyw newidiadau wedi bod yn y niferoedd o garcharorion yr aseswyd ac ymdriniwyd â'u hanghenion tai adeg derbyn ers i'r Llwybr Cenedlaethol gael ei gyflwyno. Roedd yr ymatebion ar y mater hwn fel a ganlyn:

**Ffigur 6: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdodau lleol o newidiadau ers Mai 2015 yn y niferoedd o garcharorion yr aseswyd ac yr ymdriniwyd â'u hanghenion tai yn dilyn dedfryd**




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 16 i’r cwestiwn hwn)

4.16 Fel y gwelir, o ymatebwyr yr arolwg a atebodd y cwestiwn hwn, dim ond un oedd o’r farn yr aseswyd ac yr ymdriniwyd ag anghenion tai llai o garcharorion yn syth ar ôl dedfryd ers Mai 2015. Roedd y lleill o’r farn nad oedd ‘dim newid’ wedi bod yn hyn o beth (n=9) neu fod yna ‘ostyngiad bychan’ wedi bod’ (n=6) neu ‘gynnydd sylweddol’ (n=1).

4.17 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid carchardai a Swyddogion Cyfrifol na fyddai pawb oedd angen ymyriad tai adeg derbyn yn derbyn gwasanaeth o’r fath. Un rheswm am hyn oedd nad oedd asesiadau BCS1 yn cael eu cwblhau i safon uchel. Gan hynny, efallai na fyddai atgyfeiriadau i’r staff sy’n gyfrifol am ymdrin ag anghenion tai adeg derbyn i garchar yn cael eu gwneud. Meddai rhanddeiliad carchar am hyn:

> *Yn y bôn, mae’r sgrinio carchar sylfaenol... yn wastraff llwyr o amser ac arian pawb, maen nhw’n cael eu hagor a’u llofnodi jyst er mwyn dweud eu bod wedi cael eu gwneud a hawlio’r arian heb unrhyw ymdrech i ategu’r hyn mae carcharor yn ei ddweud (Rhanddeiliad carchar).*

4.18 Roedd Swyddogion Cyfrifol yn feirniadol o broses BCS1 ac heb eu hargyhoeddi fod y wybodaeth o gasglwyd o ddefnydd arwyddocaol:

> *Does ganddyn nhw ddim gwybodaeth, does ganddyn nhw ddim byd o werth, a tydyn nhw byth bron yn cael eu gwneud beth bynnag, neu byth bron yn cael eu cwblhau. Os ydyn nhw, ychydig iawn o wybodaeth sydd ynddyn nhw, fasai'n rheitiach peidio â'u gwneud nhw (Swyddog Cyfrifol).*

4.19 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid carchardai fod y prosesau ar gyfer asesu anghenion tai adeg derbyn yn ddiffygiol am fod yn rhaid i'r BCS1 ac yna'r BCS2 gael eu cwblhau o fewn 72 awr a 5 diwrnod gwaith, yn y drefn honno, o adeg derbyn carcharor i'r ddalfa. Roedd derbyniad cychwynnol i'r ddalfa yn aml ar remand, fodd bynnag, a adolygwyd bob pythefnos. Gan hynny, gofynnwyd i garcharorion yn aml am statws eu llety ar adeg pan y gallent fod yn ansicr ynghylch eu dyfodol ac yn debygol o fod yn gobeithio am fechnïaeth. Fel enghraifft o hyn, dywedodd un ymatebwr gadawr carchar:

> *Dwi'n meddwl fod Shelter wedi dod i 'ngweld i ddeuddydd ar ôl i mi gyrraedd, ond yn amlwg doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd fy nedfryd yn mynd i fod bryd hynny... felly dywedais "Dwi ddim yn gwybod beth ydi fy amgylchiadau i na beth sy'n mynd i ddigwydd" a dim byd ers hynny (Ymatebwr Gadawr Carchar)*

4.20 Yn ôl rhanddeiliaid carchardai, nid oedd Cynllun Ailsetlo BCS2 yn cael ei ailwneud yn awtomatig ar ôl pob gwrandawiad remand neu'n dilyn dedfryd. Ar ben hynny, unwaith iddo gael ei gwblhau, ni ellid diweddaru'r BCS2 hyd yn oed petai yna newid mewn amgylchiadau.

4.21 Roedd rhai rhanddeiliaid carchardai yn amau fod y rheiny oedd yn newydd i garchardai mewn sefyllfa i gyfathrebu'n effeithiol am eu hamgylchiadau. Awgrymwyd y gallai sioc cael eu carcharu olygu na allai rhai carcharorion weithredu er eu lles gorau eu hunain o ran llety yn gynnar yn eu profiad yn y ddalfa.

4.22 Rheswm arall pam na allai gwasanaethau ataliol fod ar gael i garcharorion adeg derbyn oedd salwch staff o fewn y ddarpariaeth PLC; heriau cysylltiedig â rheoli'r 'cordd' o bobl i mewn ac allan o'r carchardai derbyn/ailsetlo mwy; a'r amser oedd ar gael i staff weld pawb:


> *Maen nhw bob amser yn brysur iawn, efo lot o bobl i'w gweld... Rydan ni'n gweld staff prysur, yn eu gweld nhw'n mynd i'r gwahanol rannau ac mae ganddyn nhw bob amser restrau o bobl i'w gweld (Rhanddeiliad carchar).*

> *Mae yna broblem staffio gyda'r cyswllt carchar... mae yna lot o salwch a phobl i ffwrdd o'u gwaith am resymau eraill felly dydyn ni erioed wedi cael staff llawn ar gyfer y cyswllt carchar (Rhanddeiliad carchar).*

4.23 Nid oedd rhai staff PLC yn gallu cael gafael ar allweddi, ac roedd hyn yn ei gwneud yn anodd trefnu i weld carcharorion perthnasol. Achosodd y rhwystr ymarferol bychan hwn wrth ymgysylltu â charcharorion gryn anawsterau wrth gwrdd â'r galw.

4.24 Cyfwelwyd cyfanswm o 75 carcharor yn nhon 1 o'r astudiaeth. Nid oedd pob un yn eglur ynghylch eu hamgylchiadau tai adeg derbyn. Adroddwyd y proffilau canlynol gan y 66 y llwyddwyd i ymysylltu â hwy am y pwnc hwn:

**Ffigur 7: Statws llety 66 o ymatebwyr gadawyr carchar wrth gael eu derbyn i'r ddalfa**




Sail: Hunanadroddiadau gan 66 o'r 75 carchar a gyfwelwyd yn nhon 1

4.25 Yn y ffigur uchod, mae'r categori DCS (n=32) yn cynnwys y rheiny a ddisgrifiodd batrymau ansefydlog o fyw adeg derbyn, naill ai gyda ffrindiau/'soffa syrffio', gwneud defnydd o lochesi nos, neu'n ddigartref ar y stryd.

4.26 Roedd ymatebwyr gadawyr carchar yn cael trafferth i gofio pa faterion oedd wedi cael eu trafod gyda nhw a chan bwy adeg eu derbyn i'r carchar. Awgrymai'r rhan fwyaf, fodd bynnag, eu bod wedi cael eu holi am eu llety. Roeddent yn cofio fod ffocws trafodaeth o'r fath ar gymhwyster am Fudd-dal Tai, ac i rai roedd hyn wedi helpu:

> *Mi gysylltodd hi â'r cyngor, mi holais i gynta pan ddes i mewn, daeth un o'r swyddogion o Shelter [PLC] draw i 'ngweld i…, ac mi ofynnais iddi sortio fy rhent allan ac... mi wnaeth hi'i sortio fo allan i mi, a dyma nhw'n dweud os oedd fy nedfryd i'n unrhyw beth dros 13 wythnos fasai'r rhent ddim yn cael ei dalu, ac mi dalais i, ac mae fy nedfryd i'n 13 wythnos i'r diwrnod. Ar ei ben (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

4.27 Dywedodd rhanddeiliaid carchardai fod gweithgaredd i atal digartrefedd fel arfer ar ffurf helpu carcharorion i wneud cais am fudd-dal tai neu derfynu tenantiaethau os oeddent yn mynd i fod yn y ddalfa am gyfnod hirach nag y gellid talu'r budd-dal:

> *Rydym yn ceisio cynnal tenantiaethau tra'u bod nhw yn y carchar felly mae hynny'n golygu gweithrediadau llys sirol, sicrhau fod ceisiadau am fudd-daliadau tai mewn grym a chydgysylltu â landlordiaid sy'n ceisio datrys pa bryd y mae'n rhaid i rai tenantiaethau, yn anffodus, gael eu terfynu (Rhanddeiliad carchar)*

4.28 Ychydig iawn o sôn sydd yna am staff carchardai yn cyfranogi mewn mwy o arferion ataliol amrywiol megis cyfryngu ag awdurdodau lleol, teuluoedd, landlordiaid preifat neu staff hosteli ynghylch cynnal tenantiaethau neu gael gafael ar daliadau dewisol pan fo yna ddiffyg posibl mewn budd-daliadau tai.

4.29 Yn ôl pedwar ymatebwr gadawr carchar yn fuan cyn cael eu rhyddau, roedd anawsterau tai yn ymddangos i fod yn gysylltiedig â materion a allai, pe'r ymdriniwyd â hwy adeg derbyn, fod wedi gwella eu rhagolygon llety. Mewn dau o'r achosion hyn, collwyd y llety am fod dedfryd y carcharor yn hirach nag 13 wythnos yn y ddalfa. Fodd bynnag, roedd y ddau achos yma yn ymwneud â gor-arhosiad o ddim ond 2-3 wythnos yn y carchar. Cyfeiriodd trydydd ymatebwr gadawr carchar at anawsterau talu rhent oedd yn golygu cysylltu â theulu i'w datrys, yn absenoldeb unrhyw gynnig arall o gymorth. Dywedodd pedwerydd ymatebydd fod ei garchariad (a cholli cyflog) wedi ei gwneud yn anodd i'w gymar dalu 'elfen atodol ychwanegol' eu rhent misol. Ni allai'r un o'r ymatebwyr hyn gofio a oedd y posibilrwydd o wneud taliadau tai dewisol wedi cael ei drafod na'i archwilio gyda nhw.

4.30 Awgrymai adroddiadau o'r modd yr aseswyd anghenion tai adeg derbyn i'r ddalfa fod y ffocws ar y cwestiynau 'a oes angen i chi wneud cais am fudd-dal tai?' a/neu 'a oes gennych chi gyfeiriad i fynd iddo ar ôl i chi gael eich rhyddhau?' Gan hynny, gallai asesiadau o anghenion yn y cyfnod derbyn fod yn arwynebol:

> *Dyma nhw'n gofyn 'oes gen ti gyfeiriad ar y tu allan?' a dywedais fy mod i'n 'rhentu lle', dyma nhw'n dweud 'ti'n debygol o fynd yn ôl yno?' Dywedais 'efallai ond dwi ddim yn siŵr iawn o'r amgylchiadau' a wnes i ddim clywed dim byd am hynny wedyn (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

4.31 Soniodd dau ymatebwr gadawr carchar am roi'r gorau i'w tenantiaethau wrth fynd i'r carchar. Roedd yna dinc o achwyn yn yr adroddiadau hyn am nad oedd hyn wedi golygu y gallent fwynhau unrhyw statws uwch am lety adeg eu rhyddhau:

> *Y ddwy flynedd ddiwetha, roedd gen i fflat yn xxxx, mi ddes i'r carchar a'i derfynu'n wirfoddol a chael gwybod y baswn yn cael fy ail-letya, ond wnaeth hynny ddim digwydd, es i at y cyngor a dywedson nhw nad oedd ganddyn nhw ofal drosta i neu beth bynnag (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

# 5. Canfyddiadau: Ailsetlo


5.1 Credai rhanddeiliaid proffesiynol fod helpu gadawyr carchar i ddod o hyd i lety cyn eu rhyddhau yn gysylltiedig â deilliannau cadarnhaol iddynt hwy ac i'r gymuned yr oeddent yn dychwelyd iddi. Cysylltwyd digartrefedd, er enghraifft, ag aildroseddu:

> *Gallai troseddwyr oedd yn dd allan ar risg uchel droseddu ar y diwrnod cyntaf, does gennym ni ddim amser i ddweud ie dewch allan mi rown ni chi mewn cysylltiad â swyddog tai a gallwch chi ddechrau chwilio ac yna, cyn hynny, maen nhw wedi troseddu. Felly allwn ni ddim cymryd y risg yna (Rhanddeiliad Cymunedol).*

5.2 Roedd ymatebwyr gadawyr carchar a gyfwelwyd hefyd yn cysylltu eu tebygolrwy

> *Os nad yw hynny gennych chi yna does gennych chi ddim byd arall i adeiladu arno. Os nad yw hynny gennych chi allwch chi ddim cael gwaith, os nad yw hynny gennych chi allwch chi ddim bod yn siŵr o unrhyw beth arall yn y dyfodol (Ymatebwr Gadawr Carchar).*


5.3 O ran helpu gadawyr carchar i ddod o hyd i lety, gofynnwyd i ymatebwyr arolwg awdurdod lleol wneud sylw am eu profiadau o amseroldeb cwblhau adolygiadau ailsetlo (a ddisgwylir 12 wythnos cyn i garcharor gael ei ryddhau):




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 22 i'r cwestiwn hwn)

5.4 Ar y cyfan, teimlai ymatebwyr arolwg awdurdod lleol na allent wneud sylw ynghylch a oedd anghenion tai yn cael eu hadolygu mewn modd amserol yn ystod cyfnod ailsetlo dedfryd carcharor (n=9). O'r rheiny a allai wneud sylw, credai un fod adolygiadau yn cael eu cwblhau mewn modd amserol yn 'aml iawn' ond credai saith mai dim ond 'weithiau' y cawsant eu cwblhau yn y modd yma. Ar y llaw arall, credai pump mai 'yn anaml' neu 'byth' y cawsant eu cwblhau yn y modd yma.

5.5 Holwyd ymatebwyr arolwg awdurdod lleol ynghylch amseroldeb atgyfeiriadau (Atodiad 8/9) Llwybr Cenedlaethol. Fel y dengys y ffigur isod, dim ond dau ymatebwr a gredai eu bod yn amserol 'yn aml iawn'. Dewisodd y gweddill ddisgrifwyr a awgrymai fod eu profiad o dderbyn atgyfeiriadau mewn modd amserol yn anghyson.




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 22 i'r cwestiwn hwn)

5.6 Roedd rhanddeiliaid awdurdodau lleol a gyfwelwyd yn llai amwys, credent fod atgyfeiriadau tai yn cael eu cyflwyno yn hwyr fel arfer, gan roi amser annigonol iddynt ymgysylltu â gadawyr carchar cyn iddynt gael eu rhyddhau. Dywedwyd fod y tuedd yma yn arbennig o ddifrifol o ran atgyfeiriadau gan garchardai a ddeliai gyda nifer uchel o achosion derbyn ac ailsetlo (Altcourse, Caerdydd ac Abertawe yn bennaf):


5.7 Mae'r adroddiad canlynol gan randdeiliad awdurdod lleol yn gynrychioliadol o'r modd y canfuwyd y broses ar gyfer derbyn atgyfeiriadau gan y grŵp hwn o ymtebwyr:

> *Rydym yn gorfod mynd ar ôl pobl drwy'r amser am wybodaeth, weithiau rydym yn cael yr Atodiad 8 bythefnos cyn rhyddhau, ac ar y diwrnod rhyddhau. Rydym yn dal i gael cyflwyniadau ar yr un diwrnod (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

5.8 Roedd yr agwedd at samplo yn tueddbennu y byddai'r ymatebwyr gadawyr carchar wedi cael eu gweld er dibenion cwblhau atgyfeiriadau tai. Fodd bynnag, ni ymddangosai fod llawer wedi cael eu gweld 66 diwrnod cyn dyddiad eu rhyddhau. Roedd y mwyafrif wedi cael eu gweld yn ddiweddar a chan hynny o fewn 1-6 wythnos i ddyddiad eu rhyddhau. Dim ond mewn traean o'r achosion yr oedd modd esbonio hyn am fod yr ymatebwyr gadawyr carchar wedi dod i'r ddalfa ac wedi mynd yn syth i'r ffenestr ailsetlo.

5.9 Gan ddychwelyd at arolwg yr awdurdod lleol, gofynnwyd cwestiwn dilynol i ymatebwyr ynghylch ansawdd y wybodaeth a geir yn Atodiad 8 (atgyfeiriad tai) ac Atodiad 9 (asesiad risg NPS/CRC):

**Ffigur 10: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdodau lleol o ansawdd y wybodaeth a geir yn atgyfeiriadau Atodiad 8 ac Atodiad 9**




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 21 i'r cwestiwn hwn)

5.10 Cafwyd ymatebion amrywiol i’r cwestiwn yma, gyda 10 ymatebwr yn dweud fod y wybodaeth a gafwyd yn Atodiad 8 yn ‘wael’ neu’n ‘wael iawn’, a 7 yn dweud fod y wybodaeth yn ‘dderbyniol’. Credai llai o bobl fod y wybodaeth a gafwyd yn Atodiad 9 yn ‘dderbyniol’ (n=6), a dywedai nifer debyg fod ansawdd y wybodaeth yn ‘wael’ neu’n ‘wael iawn’ (n=6). Awgrymodd dros ddwywaith cymaint o’r ymatebwyr nad oedd Atodiadau 9 wedi cael eu cwblhau (n=5).

5.11 Yn ystod y cyfweliadau, holwyd rhanddeiliaid awdurdodau lleol ynghylch ansawdd atgyfeiriadau Atodiad 8 ac Atodiad 9. Awgrymwyd ganddynt hefyd fod ansawdd atgyfeiriadau o’r fath yn wael fel arfer:

> *Mae’r wybodaeth yr ydym yn ei chael gan garchardai yn ffurflenni sylfaenol, sydd fel arfer yn dweud fod anghenion tai yn cael eu trafod trwy anfon yr atgyfeiriad at yr adran Dai! (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*
>
> *Weithiau mae’r ffurflenni yn cael eu cwblhau yn sylfaenol iawn, heb roi llawer o wybodaeth i ni fel awdurdod lleol. Mae llawer o’r ffurflenni yn cael eu cwblhau ac yn dweud yr un peth (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

5.12 Roedd rhanddeiliad awdurdodau lleol yn cysylltu ansawdd gwael atgyfeiriadau tai gyda nifer o ffactorau, y cyntaf oedd y ffaith fod rhai yn cael eu cwblhau gan y gadawyr carchar eu hunain neu gan un o’u cydgarcharorion:

> *Maen nhw’n cael y ffurflen atgyfeirio ond yn ei llenwi eu hunain, sy’n golygu nad ydym yn cael y wybodaeth angenrheidiol (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol)*

*Os ydyn nhw'n cael eu cwblhau gan eu cydgarcharorion, tydi'r carcharorion ddim bob amser eisiau sôn wrthyn nhw am eu busnes. Rydyn ni wedi cael rhai sydd wedi dweud nad oes ganddyn nhw unrhyw broblemau, maen nhw wedi dod i mewn a dweud 'mae gen i broblemau iechyd meddwl', 'mae gen i hyn, mae gen i'r llall, allwn i jyst ddim dweud wrthyn nhw' (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

5.13 Roedd ymatebwyr gadawyr carchar yn feirniadol o arferion oedd yn ymwneud â'u cydgarcharorion yn cwblhau atgyfeiriadau tai ar eu rhan. Yma, roedd eu pryderon yn gysylltiedig â'r goblygiadau negyddol posibl o ddatgelu manylion personol:

*Carcharor ddaeth draw i'w wneud o, nid dyna oedd eu job yn y carchar a doedd o ddim yn swyddogol, felly tydw i ddim yn siŵr a faswn i'n gyfforddus yn trafod y peth gyda nhw beth bynnag (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

*Dim ond carcharor oedd o, cynghorydd i'w gydgarcharorion o bosib. Yr unig drafferth oedd gen i gyda hynny oedd mai'r cwbwl wnaeth o oedd ei roi i mi a cherdded i ffwrdd (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

5.14 Yr ail reswm pam y gallai ansawdd y wybodaeth a roddwyd mewn atgyfeiriadau tai (Atodiad 8) ac asesiadau risg (Atodiad 9) fod yn wael, yn ôl rhanddeiliaid awdurdodau lleol, oedd am nad oedd digon o amser i asesu angen gadawr carchar yn iawn pan fyddai carcharor yn y ddalfa am gyfnod byr yn unig:

*Mae'r rheiny gyda dedfrydau hirach a mwy difrifol yn dueddol o dderbyn gwasanaeth mwy rhagweithiol nag eraill, a hynny wedyn yn gadael rhai troseddwyr gyda... phatrymau troseddu mwy mynych gydag atgyfeiriadau hwyr/cyfyngedig (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

*Os ydyn nhw'n dymor hirach, maen nhw'n fwy tebygol o gael gwasanaeth mwy di-dor achos bod yna fwy o amser i drefnu (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

5.15 Roedd ymatebwyr gadawyr carchar hefyd yn ymwybodol y gallai'r profiad ailsetlo amrywio yn ôl hyd y ddedfryd:

*Dim ond dedfrydau bychan sydd gan y rhan fwyaf o ferched beth bynnag felly maen nhw allan o fewn 6 neu 7 wythnos felly tydyn nhw ddim yn cael eu gweld, po hiraf yr ydych chi yma, po fwyaf o help y cewch chi (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

*Fel dwi'n dweud, achos 'mod i ond yn gwneud 30 diwrnod, tydych chi ddim fel petaech chi'n cael llawer i'w wneud yn y 30 diwrnod yna (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

5.16 Y trydydd rheswm a'r olaf pam yr awgrymai rhanddeiliaid awdurdodau lleol y gallai ansawdd atgyfeiriadau tai (Atodiad 8) ac asesiadau risg (Atodiad 9) fod yn wael oedd am nad oedd gwybodaeth gyfredol am garcharor ar gael o bosibl er mwyn cwblhau ffurflenni o'r fath. Dyna'n sicr oedd yr achos pan oedd atgyfeiriadau yn cael eu cwblhau gan gydgarcharorion, ond ni awgrymodd yr un rhanddeiliad carchar a oedd yn gyfrifol am atgyfeiriadau tai eu bod yn cael gafael ar OAsys yn rheolaidd er dibenion gwneud atgyfeiriadau tai. Yn yr un modd, yn y rhan fwyaf o achosion, seiliwyd atgyfeiriadau yn unig ar yr hyn a ddywedai'r gadawr carchar wrth y cydgarcharor oedd yn atgyfeirio neu'r swyddog TTG:

*Tydi atgyfeiriadau naill ai ddim yn cael eu derbyn neu, pan fyddan nhw, yn cael eu derbyn ychydig ddyddiau'n unig cyn y dyddiad rhyddhau sy'n golygu nad yw'r wybodaeth yn ddigon manwl i wneud unrhyw benderfyniadau, ac yn aml heb fod yn ddigonol i ymgymryd ag ymholiadau pellach sylweddol (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

5.17 Cafwyd adroddiadau gan lawer o randdeiliaid awdurdodau lleol am adawyr carchar, nad oedd yn hysbys iddynt yn flaenorol, yn dod i'r swyddfa dai ar ddiwrnod eu rhyddhau. Credwyd fod hyn yn digwydd weithiau am y gallai'r prosesau ar gyfer dynodi gadawyr carchar oedd angen ymyriad tai fod yn ddiffygiol. Ymddangosai fod yna ystod o brosesau lle gallai gadawyr carchar a ddynodwyd ag angen gwasanaethau tai ar ôl eu rhyddhau. Mewn rhai carchardai, byddai pob gadawr carchar yn cael eu gweld a'u holi ynghylch eu hamgylchiadau tai, tra byddai'r gwasanaeth yn dibynnu ar hunangyfeirio mewn carchardai eraill. Wrth godi cwestiynau am ei ddiben, nid oedd y BSC2 yn ymddangos i fod yn gyfeirbwynt ar gyfer ymyriadau tai yn ystod y ffenestr ailsetlo yn unrhyw un o'r carchardai yr ymwelwyd â hwy.


5.18 Tra bod rhai cyflwyniadau 'ar ddiwrnod ryddhau' yn cael eu hystyried yn anochel am y gallai gadawr carchar fod heb ddatgan ei sefyllfa ddigartref bosibl neu wedi bwrw dedfryd fer iawn (ar adalwad yn aml), credwyd y gellid bod wedi osgoi'r rhan fwyaf o gyflwyniadau o'r fath pe bai'r Llwybr Cenedlaethol wedi cael ei ddilyn. Yn y darn canlynol, mae Swyddog Cyfrifol yn disgrifio'r modd y gallai'r Llwybr Cenedlaethol fod heb gael ei weithredu:

> *Mewn llawer o'r achosion, nid yw'r cais digartref yn cael ei anfon atom ni, felly ni allwn ychwanegu ein hasesiad risg... Felly, ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau, maen nhw'n dod i mewn a dweud eu bod yn ddigartref, felly rydyn ni'n gorfod gwneud hynny ar y diwrnod, yna mae'r adran dai yn dweud 'wel doedden ni ddim yn gwybod am y boi 'ma, achos does 'na neb wedi cysylltu efo ni o flaen llaw' (Swyddog Cyfrifol).*

5.19 Roedd diffyg cyfunioni rhwng y gweithdrefnau sydd mewn grym cyn i adawyr carchar gael eu rhyddhau o'r ddalfa a darpariaeth gwasanaeth TTG yn cynyddu'r tebygolrwydd na fyddai anghenion tai yn cael eu trafod cyn iddynt gael eu rhyddhau. Bwriedir i amodau trwydded gael eu hanfon at Swyddogion Cyfrifol yn y gymuned yn ffurflen PD1 yn "ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn i'r troseddwr cael ei ryddhau". Felly, nid yw'r adeg pan ofynnir i Swyddogion Cyfrifol ystyried yn ffurfiol yr amodau annedd a ddylai fod mewn grym adeg rhyddhau yn cyd-daro â'r adeg pan fo'r mater tai yn cael (neu a ddylai gael) ei archwilio gan staff TTG (h.y. 66 diwrnod cyn rhyddhau):

*Yr hyn yr ydym yn ei ddarganfod hefyd yw y byddan nhw'n rhoi cyfeiriad i chi a bydd pobl yn meddwl fod popeth yn iawn, yna bythefnos cyn rhyddhau mae'n rhaid i'r rheolwr troseddwyr yn y gymuned lenwi PD1 a dweud ein bod yn cymeradwyo'r cyfeiriad yma ac yn sydyn …"nid ydym yn cymeradwyo"…yna mae pawb yn dechrau rhedeg o gwmpas yn ceisio delio gyda nhw (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

5.20 Gofynnwyd i ymatebwyr arolwg awdurdod lleol werthuso'r gwasanaeth a ddarparwyd i adawyr carchar cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa. Fe'u gwahoddwyd i ddewis datganiad a adlewyrchai orau eu profiadau o ba mor aml yr oedd anghenion tai yn cael eu trafod mewn gwirionedd (yn annibynnol ar atgyfeiriadau a wnaed) yn ystod y Cyfnod Ailsetlo 12 wythnos:




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 22 i'r cwestiwn hwn)


5.21 Yma, gellid nodi fod rhai ymatebwyr arolwg awdurdod lleol wedi methu gwneud sylw am y mater hwn (n=6). Credai un ymatebwr fod anghenion tai yn cael eu trafod ‘yn aml iawn’. Fodd bynnag, credai naw mai dim ond ‘weithiau’ yr oedd anghention tai yn cael eu trafod, a chredai pump mai dim ond ‘yn anaml’ y trafodwyd anghenion o’r fath.

5.22 Yn ystod cyfweliadau, roedd rhanddeiliaid proffesiynol yn llawer llai rhanedig eu barn, ac ystyriai’r rhan fwyaf nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â darpariaeth o’r fath fod gwasanaethau tai TTG yn wael:

> *Dwi ddim yn meddwl fod Drwy’r Giât yn gweithio... wna’i ddim cael dim byd a fi ydi’r un sy’n trio cael gwybodaeth allan ohonyn nhw... dwi ddim yn siŵr be maen nhw’n ei wneud i ailsetlo (Swyddog Cyfrifol).*

> *A dweud y gwir dwi ddim yn meddwl fod yna ddigon o weithwyr i wneud popeth…., dwi ddim yn meddwl fod yna unrhyw staff newydd felly mae yna bentwr o waith ychwanegol a dim digon o bobl yn y fan a’r lle i wneud yr holl waith sydd angen ei wneud (Rhanddeiliad carchar).*

5.23 Gofynnwyd i ymatebwyr arolwg awdurdod lleol asesu sut oedd y sefyllfa wedi newid ers Mai 2015 ac a oedd yna newidiadau (cynnydd neu ostyngiadau) wedi bod yn y nifer o garcharorion yr aseswyd ac yr ymdriniwyd â’u hanghenion tai yn ystod y ffenestr ailsetlo. Gwelir yr ymatebion i’r cwestiwn hwn isod:




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 19 i'r cwestiwn hwn)

5.24 Fel y nodir yn Ffigur 12 uchod, er gwaethaf ambell feirniadaeth o'r modd yr oedd y Llwybr Cenedlaethol yn gweithredu, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o'r farn nad oedd y sefyllfa yn 'ddim gwaeth' ers i'r Llwybr Cenedlaethol gael ei sefydlu (n=10). Yn fwy anogol efallai, credai wyth ymatebwr fod yna gynnydd 'sylweddol' neu 'fychan' wedi bod yn y nifer o adawyr carchar yr aseswyd ac yr ymdriniwyd â'u hanghenion tai yn ystod y ffenestr ailsetlo.

5.25 Gallai bron i bob un o'r ymatebwyr gadawyr carchar a gyfwelwyd yn nhon 1 yr astudiaeth gofio cais tai yn cael ei gwblhau ganddyn nhw neu gyda nhw. Fodd bynnag, ychydig iawn a ddywedodd eu bod wedi cael ymateb i'r cais hwn, a dim ond pedwar a ddywedodd fod rhywun y tu allan i'r carchar ac yn gysylltiedig â thai wedi dod i'w gweld. Dywedodd y rheiny a gofiai gael ymateb eu bod wedi derbyn llythyr nad oedd o lawer o gymorth iddynt, yn cynnwys, ar y cyfan, dim ond datganiad ynghylch eu anghymhwyster am lety yn syth ar ôl eu rhyddhau:

*Yn y bôn, dywedodd nad ydw i'n flaenoriaeth a dyna ni, dyna'r cwbwl fedra'i gofio mewn gwirionedd, fe soniodd am fy oedran i (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

5.26 Dywedodd rhanddeiliaid awdurdodau lleol fod gadawyr carchar a atgyfeiriwyd atynt, yn amlach na heb, yn gyfarwydd iddynt. Gan hynny, nid ystyriwyd ymweliad â'r carchar er dibenion asesu yn angenrheidiol bob amser. Cyfeiriodd rhanddeiliad awdurdodau lleol at y potensial i staff ymweld â gadawyr carchar i asesu anghenion tai cyn eu rhyddhau lle gallai hynny fod o fudd. Fodd bynnag, dim ond mewn un ardal awdurdod lleol a ddeliai gyda niferoedd cymharol isel o atgyfeiriadau tai y disgrifiwyd hynny fel arfer cyffredin.

5.27 Roedd arferion awdurdodau lleol gyda charcharorion oedd ar fin cael eu rhyddhau fel petaent yn blaenoriaethu gweithgareddau yn ymwneud â sefydlu a oedd dyletswyddau a68 yn ddyledus. Felly, disgrifiwyd cael atgyfeiriadau hwyr neu wybodaeth o ansawdd gwael gan garchardai a/neu ddarparwyr prawf yn bennaf yn nhermau'r effaith y cawsai hynny ar allu staff i asesu cymhwyster am lety dros dro:

*Petaech am ddilyn y Llwybr, dylech edrych a oes angen blaenoriaethol neu beidio i ddechrau, yna, os oes yna angen blaenoriaethol, yn amlwg byddwch yn edrych ar ryw fath o lety dros dro pan fyddant yn cael eu rhyddhau (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

*Pan fyddan ni'n cael atgyfeiriad, yr hyn yr ydym yn ei wneud fel arfer ydi gwneud penderfyniad adran 75, 73, a dyna pryd y buasen yn gwneud yr angen blaenoriaethol neu ddim angen blaenoriaethol (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

5.28 Cyfeiriodd llawer o randdeiliaid awdurdodau lleol at ddisgwyliad y byddai penderfyniadau ynghylch dyletswyddau a68 yn cael eu gwneud o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn atgyfeiriad tai ynghylch carcharor. Credai dau randdeiliad carchar, fodd bynnag, ei bod yn amhriodol asesu ar gyfer statws Angen Blaenoriaethol cyn i garcharor gael ei ryddhau. Awgrymodd un

o'r ymatebwyr hyn fod gwneud penderfyniadau cynnar yn fecanwaith i osgoi'r costau oedd yn gysylltiedig â lletya gadawyr carchar yn y gymuned (tra cynhaliwyd asesiad llawnach o'u statws Angen Blaenoriaethol).

5.29 Yn arolwg yr awdurdod lleol, gofynnwyd i ymatebwyr sôn am y modd yr oeddent yn asesu hyglwyfedd ymhlith gadawyr carchar. Dynodai ymatebion fod hyd dedfryd yn faen prawf penodol 'carcharor' allweddol. Credai ymatebwyr arolwg awdurdod lleol fod yna gysylltiad rhwng bwrw dedfryd hir, sefydliadoli a hyglwyfedd yn sgil hynny:

> *Bydd hyd y ddedfryd yn cael ei ystyried, a'r math o ddedfryd, yn ogystal ag ystyriaeth o unrhyw faterion y gellid bod wedi eu hystyried yn y ddalfa ynghyd ag unrhyw faterion iechyd a lles eraill sy'n bodoli (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

> *Hyd y ddedfryd a'r modd y mae hynny wedi effeithio ar yr unigolyn, unrhyw hyglwyfedd a allai fod wedi effeithio ar allu unigolyn i ymdopi ag addasu (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

5.30 Roedd llawer o'r ymatebwyr gadawyr carchar a gyfwelwyd yn nhon 1 yn bwrw dedfrydau byrrach. Eto, rhoesant yr argraff i ymchwilwyr eu bod yn sefydliadedig ac yn gorfforol fregus, â chythrwfl meddwl neu'n ddibynnol ar sylweddau. Ychydig iawn o'r carcharorion hyn wnaeth awgrymu eu bod wedi derbyn statws Angen Blaenoriaethol.

5.31 Ymddangosai rhai rhanddeiliad awdurdodau lleol yn anwymwybol o'r posibilrwydd, oherwydd amlder ac effaith gronnus y dedfrydau byrion a brofir ganddynt, y gallai sefydliadoli hefyd fod yn broblem sylweddol i rai carcharorion tymor hirach.

5.32 Credai rhai Swyddogion Cyfrifol hefyd fod y bar ar gyfer cael eich asesu yn hyglwyf yn rhy uchel:

*Mae gan dipyn go lew, yn sicr y mwyafrif o bobl dwi'n gweithio gyda nhw, broblemau iechyd meddwl, eto pan rydyn ni'n sôn am hyn wrth yr awdurdod lleol, nid yw fel petai'n gwneud llawer o wahaniaeth (Swyddog Cyfrifol).*

*Yn anffodus, er bod ganddo feddyginiaethau ac adroddiad seiciatrig fod y sgitsoffrenia dan reolaeth, fe fynychodd fel y gwnaethon ni eu hysbysu ac fe gafodd asesiad risg, ac achos bod ei sgitsoffrenia a chyflwr ei iechyd meddwl dan reolaeth, nid oedd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth (Swyddog Cyfrifol).*

5.33 Awgrymodd Rhanddeiliad Awdurdodau Lleol fod cael eich dynodi yn 'hyglwyf' yn dibynnu'n bennaf ar y gallu i ddarparu tystiolaeth feddygol ysgrifenedig o salwch meddwl neu gorfforol. Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod rhan 7 o'r Llwybr Cenedlaethol yn gosod disgwyliadau fod angen i anghenion iechyd meddwl a chorfforol wedi'u diagnosio a heb eu diagnosio gael eu hystyried wrth ystyried gwasanaethau ôl-ryddhau:

*Dywedodd wrthym ei bod yn dioddef o PTSD, ond nid oes ganddi ddiagnosis ffurfiol, a bob tro mae hi'n mynd i weld y meddyg teulu, mae o fel petai eisiau rhoi atgyfeiriad pellach iddi, ond dydi hi ddim yn cydsynio, neu mae hi'n methu apwyntiadau, felly does yna ddim diagnosis ffurfiol (Swyddog Cyfrifol).*

5.34 Cyfeiriodd Rhanddeiliad Awdurdodau Lleol at bwysigrwydd tystiolaeth feddygol ond gan ddisgrifio rhwystrau i gael gafael ar wybodaeth am adawyr carchar gan staff gofal iechyd carchardai:

*Roedd modd cael tameidiau o wybodaeth, ond mae trio cael gafael ar wybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd tra maen nhw wedi bod yn y carchar yn anodd iawn iawn (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

5.35 Roedd rhanddeiliaid carchardai yn feirniadol o’r gwasanaethau digartrefedd a ddarperir i adawyr carchar cyn iddynt gael eu rhyddhau gan yr awdurdodau lleol. Deallent nad oedd atgyfeiriadau yn cael eu gweithredu mewn modd pendant a bod gadawyr carchar felly yn aml yn cael eu rhyddhau yn ddigartref. Fel arall, dywedir wrth garcharorion am riportio i’r tîm opsiynau tai ar ôl cael eu rhyddhau, pan fyddai gweithgaredd ‘helpu i sicrhau’ yn dechrau o ddifrif:

> *Y mis diwetha, mi wnes i gwblhau 24 cais tai, cwblhawyd 24 HRA gan OM’s, a chefais i’r un ymateb yn ôl gan unrhyw adran dai (Rhanddeiliad carchar).*
>
> *Wnaiff rhai ALl ddim gwneud unrhyw beth nes iddyn nhw gael eu rhyddhau felly nid yw’r 56 diwrnod yn cychwyn o gwbl nes iddyn nhw gael eu rhyddhau (Rhanddeiliad carchar).*

5.36 Ymhlith rhai rhanddeiliad cymunedol Swyddogion Cyfrifol, ymddangosai fod y disgwyliad na fyddai unrhyw beth yn cael ei wneud am anghenion llety gadawr carchar nes iddynt gael eu rhyddhau wedi dod yn rhywbeth cyffredin ac anhynod:

> *Dylsai fod wedi derbyn y cais am lety pan oedd yn y carchar, ond nid ydym o angenrheidrwydd yn cael ymateb ganddynt, gan eu bod nhw’n dibynnu ar y person yna’n mynd i gyflwyno’u hunain iddynt ar y diwrnod hwnnw (Rhanddeiliad carchar).*
>
> *Wnân nhw ddim asesu nes y diwrnod rhyddhau... Yr hyn sy’n cyfri yw asesiad yr awdurdod lleol a dyw hynny ddim nes iddynt adael y carchar (Rhanddeiliad carchar).*

5.37 Ymddangosai fod disgwyliadau isel parthed gweithgareddau ‘helpu i sicrhau’ yn cael eu rhannu gan staff TTG mewn un carchar, ac mewn ymateb i ddatganiad gan Adawr Carchar yn ystod un cyfweliad yn dweud nad oedd wedi cael ymateb gan yr adran dai, meddent:

*Dwi'n meddwl 'mod i wedi cael rhywbeth trwodd i chi â dweud y gwir, dwi'n meddwl ei fod yn y swyddfa mewn amlen, eich cynllun tai personol, nid yw'n dweud unrhyw beth wrthych mewn gwirionedd, dim ond dweud nad ydych yn flaenoriaeth mae'n debyg, ond mae o gen i yn y swyddfa ac mi wna'i ei anfon atoch, na'i ei ollwng heibio ar yr adain pnawn 'ma (Rhanddeiliad carchar)*

5.38 Awgrymodd rhanddeiliaid carchardai mai'n anaml y cwblhawyd PHPs a bod y rheiny a wnaed yn enerig a fformiwläig:

*Y gofynion camau rhesymol i rai Awdurdodau Lleol, mae jyst yn ymddangos fel petaen nhw'n torri a gludio pan welwn y llythyrau, mae'n ymddangos nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud yn benodol ar gyfer anghenion y person hwnnw a'i fod yn ddim mwy nag ymarfer ticio blychau (Rhanddeiliad carchar).*

*Tydw i ddim yn hoffi llythyrau…y cwbl sy'n cael ei wneud yw newid yr enw ar ben y llythyr yn dweud fod cais wedi cael ei wneud (Rhanddeiliad carchar).*

5.39 Disgrifiodd Rhanddeiliad Awdurdod Lleol arferion gwahanol o ran cynhyrchu PHPs. Awgrymodd rhai nad oedd PHPs yn cael eu cynhyrchu yn eu hardal hwy cyn i garcharor gael ei ryddhau. Ychwanegodd y rhai a ddywedodd eu bod yn cael eu cynhyrchu fod yna anawsterau ymarferol wrth geisio ymgysylltu â gadawyr carchar a allai beri i lawer o gynlluniau fod yn fformiwläig.

5.40 Nod Deddf Tai (Cymru) oedd newid y berthynas rhwng Awdurdodau Lleol a phobl sy'n ddigartref neu'n wynebu digartrefedd trwy hyrwyddo agwedd partneriaeth tuag at fynd i'r afael â digartrefedd. Roedd anawsterau ymarferol ymgysylltu â charchardai a charcharorion yn gwneud athroniaeth o'r fath yn anodd ei mabwysiadau gyda gadawyr carchar. Ar y cyfan, credai staff awdurdodau lleol nad oeddent yn cael mynediad i adawyr carchar. Roedd cydlynu â staff TTG, trefnu i ymweld â gadawyr carcharor, cael

sgyrsiau ar-lein neu ar y ffôn gyda nhw yn gysylltiedig ag anawsterau ymarferol:

> *Allwn ni ddim cael cyswllt y carcharor i drafod yr eiddo er mwyn gallu ei basio ymlaen, ein syniad ni oedd y buasem yn defnyddio'r swyddog ailsetlo i ddangos lluniau o'r eiddo iddyn nhw, ond does 'na ddim ymateb. Yn aml iawn, ni all y tîm ailsetlo fynd ar yr adain, fe fyddan nhw'n gwneud apwyntiadau ac mi fydda i'n eu ffonio a gofyn 'beth ddigwyddodd?' a hwythau'n ateb 'doedden ni'n methu mynd ar yr adain heddiw', dyw gwybodaeth jyst ddim yn llifo i mewn ac allan (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

5.41 Yn eu tro, rhwystrwyd ymatebwyr gadawyr carchar rhag cyrchu ffyrdd o fynd ati i ddod o hyd i ddatrysiadau i'w digartrefedd eu hunain e.e. gwybodaeth, ffôn, papurau newydd:

> *Pam na fedrwch chi, yn ystod mis olaf eich dedfryd carchar, gael lle... lle mae gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd a phethau felly, tydw i ddim yn mynd i fod yn ystyried dianc o'r carchar pan mai dim ond ychydig wythnosau sydd gen i fynd. Fel eu bod yn medru defnyddio'r ffônau eu hunain a sortio pethau allan. (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

5.42 O ganlyniad, gallai gweithgareddau 'helpu i sicrhau' gan Awdurdodau Lleol fod yn ddim mwy nag anfon gwybodaeth at adawyr carchar:

> *Rydym yn anfon gwybodaeth atyn nhw, sut i chwilio am rent preifat, lle i edrych am rent preifat, sut i gael gafael ar grantiau a chyllid er mwyn medru chwilio am fondiau neu renti o flaen llaw, rydym yn rhoi'r holl wybodaeth yna iddyn nhw, yn ei hanfon atyn nhw (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

5.43 Roedd ymatebwyr gadawyr carchar yn feirniadol iawn o'r modd y cyfathrebwyd â hwy a'u hysbysu o ddatblygiadau yn ystod y ffenestr ailsetlo:

*Dwi'n trio cadw mewn cysylltiad efo pawb drwy'r amser a gadael iddyn nhw wybod, dwi wedi ffonio'r person yma a dweud "dyma sy'n digwydd ar y dyddiad yma" a na'i adael i chi wybod bla bla bla". Does yna ddim cyfathrebu, yn y bôn rydych chi'n cael eich gadael ar yr adain yna yn meddwl "dwi'n mynd i fod yn ddigartref, tydyn nhw heb drefnu dim i mi" (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

5.44 Yn ystod cyfweliadau ton 1, ychydig iawn o ymatebwyr gadawyr carchar a gyfeiriodd at weithgareddau cyfredol yn ymwneud â'u helpu i sicrhau llety. Gwnaed rhai cyfeiriadau at gyrsiau a arferai fod ar gael i adawyr carchar oedd yn ymwneud â 'bod yn denant da', ond roedd y rheiny wedi dod i ben. Dywedodd ymatebwyr gadawyr carchar a siaradodd am ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau llety iddynt arferion eu bod yn ymddangos fel rhai 'munud olaf', wedi'u sbarduno yn aml gan yr adolygiad cyn-rhyddhau 7 diwrnod:

*Fe wnaethon nhw fy ngalw i draw, roeddwn i ar y ffôn gyda'r merched, swyddog o'r cyngor... gwrthodwyd dau le i rywun, fe ofynnon nhw i mi a fuaswn i'n mynd yno, ac meddwn i "Mi fasai'n well gen i beidio ond mi faswn i'n mynd yno petai'n rhaid i mi" ond dydyn nhw heb gynnig unrhyw beth i mi eto. Mae'n mynd i drio heddiw achos fe fydda'i allan ddydd Mawrth. (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

5.45 Wedi dweud hynny, daeth enghreifftiau o ymdrechion pendant i gynorthwyo gadawyr carchar gyda llety cyn iddynt gael eu rhyddhau i'r amlwg. Roedd enghreifftiau o'r fath yn ymwneud yn bennaf ag arfer yn ne Cymru a gweithwyr PREP:


*Y xxxx yn syth ar ôl i roi fy ffurflenni atgyfeirio i mewn, o fewn ychydig wythnosau, llai na mis, fe ddaethon nhw i 'ngweld i, cefais fy synnu (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

*Roedd yna swyddog ailsetlo gwych …ac mi wnaethon ni gyd-ymdrechu a chwffio'n galed iawn ac fe gafodd hi le xxxx. Maen nhw'n brin iawn, roedd hi'n lwcus iawn i gael*

*lle, fe setlodd hi mewn mor dda, mae'n dechrau integreiddio i'r gymuned, ac mae'r gefnogaeth mae hi'n ei gael yn rhagorol (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

5.46 Fel y nodwyd yn flaenorol, cyfwelwyd 75 gadawr carchar yn y ddalfa, gyda 67 ohonynt ar fin cael eu rhyddhau. Roedd 59 o'r ymatebwyr hyn mewn trafodaethau ynghylch eu cynlluniau rhyddhau. Ar adeg eu cyfweld, roedd y 59 yn rhagweld y cyrchfannau canlynol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau:

**Ffigur 13: Llety disgwyliedig ymatebwyr gadawyr carchar ar ôl cael eu rhyddhau**




Sail: Hunanadroddiad gan 59 o'r 67 carcharor a gyfwelwyd yn nhon 1

5.47 O'r 34 ymatebwr gadawr carchar a ddywedodd eu bod yn disgwyl bod yn DCS, cyfeiriodd 7 at ryw weithgaredd cyfredol (tu hwnt i gyflwyno atgyfeiriad Atodiad 8) yn gysylltiedig ag ymdrechion i sicrhau fod llety ar gael iddynt. Dywedodd tri ymatebwr gadawr carchar eu bod wedi cael eu hasesu yn hyglwyf ac yn gymwys ar gyfer llety dros dro.

5.48 Achos cryn bryder oedd y ffaith y gallai cyn lleied o ymatebwyr ddarparu cyfeiriad pendant wrth gael eu rhyddhau. Yn ogystal â'r 34 a ragwelai y byddent yn DCS, dywedodd 5 o'r 13 ymatebwr gadawr carchar a fwriadai ddychwelyd at eu teuluoedd fod eu bwriadau yn dal i fod yn amodol ar gael eu cymeradwyo gan ddarparwyr gwasanaethau prawf.

5.49 Dynododd Rhanddeiliad Awdurdodau Lleol rwystrau i sicrhau fod gan adawyr carchar lety i fynd iddo ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa. Cyfeiriwyd,

er enghraifft, at anawsterau "dal llety" cyn i garcharor gael ei ryddhau am y byddai landlord yn colli incwm rhent:

> *Mae gennych chi dimau ailsetlo mewn carchardai sy'n dweud "mi fydd o allan mewn pythefnos" a finnau'n ymateb "dwi'n gwybod y bydd o allan mewn pythefnos ond ar hyn o bryd fedra'i ddim dweud naill ffordd na'r llall" (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

5.50 Cyfeiriwyd hefyd at landlordiaid yn y sector rhentu preifat a rheolwyr hosteli yn osgoi risg ac yn gochel rhag lletya cyn-droseddwyr:

> *Troseddwyr sydd â chofnod gwael, sydd wedi bod i mewn ac allan o'r carchar dros nifer o flynyddoedd ac sy'n awr yn dod allan a chael pobl yn dweud wrthynt 'does na'm byd i chi, sori', (Rhanddeiliad cymunedol).*

> *Yn yr ardal yma, mae'r hostel wedi cyrraedd pwynt lle nad ydyn nhw'n cymryd pobl ar brawf, tydyn nhw ddim eisiau rhoi llety i bobl ar brawf, yn yr hostel yn yr ardal yma... dwi'n meddwl fod yna broblemau hanesyddol ynglŷn â'u hymddygiad, defnyddio cyffuriau a phethau felly. (Rhanddeiliad cymunedol).*

5.51 Er hynny, cyfeiriodd rhai darparwyr tai yng ngogledd Cymru at fylchau yn yr anheddau a allai fod wedi eu llenwi gan atgyfeiriadu gadawyr carchar.

5.52 Disgrifiodd ymatebwyr gadawyr carchar y profiad o fod ar fin cael eu rhyddhau heb gyfeiriad sefydlog fel un oedd yn achosi pryder a straen. Ychydig iawn wnaeth ddim disgrifio eu cyflwr meddwl yn ystod cyfweliadau ton 1 yn y ddalfa mewn modd gwahanol i'r enghraifft ganlynol:

> *Roedd rhywun i fod i adael i mi wybod be oedd yn digwydd gyda'r ffurflen a lenwais, ond fel y dywedais, does 'na neb wedi dod yn ôl ata'i eto…9 gwaith allan o 10 dwi'n torri i lawr a chrio achos, dwn i'm, mae gen i ofn yr anwybod ac mae hynny'n beth mawr o ran pryder (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

# 6. Canfyddiadau: Cyfnod ar ôl Rhyddhau

## 6.1 Canfyddiadau

6.1.1 Rhoddodd Rhanddeiliad Awdurdodau Lleol ddeongliadau gwahanol o'r dyletswyddau deddfwriaethol sy'n ddyledus i adawyr carchar. Deallai rhai fod rhyddhau o garchar yn golygu newid amgylchiadau i bob gadawr carchar ac yn sbarduno asesiad newydd o ddyletswyddau dyledus. Deallai eraill, fodd bynnag, fod y cloc yn dal i dicio o'r adeg y derbyniwyd y ddyletswydd gyntaf (fel arfer a73 helpu i sicrhau):

> *Nid ydym yn rhoi 56 diwrnod arall iddyn nhw, dwi'n meddwl mai'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ydi "camau rhesymol" felly rydw i'n edrych arno a meddwl "beth ydw i wedi medru ei gynnig i'r person hwnnw" (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

> *Felly maen nhw'n dod atom ni, rydym yn penderfynu nad oes unrhyw angen blaenoriaethol, rydym yn eu cynorthwyo am 56 diwrnod, am y 56 diwrnod hwnnw maen nhw yn y carchar felly maen nhw'n dod allan ac wedi cael y 56 diwrnod felly mi fedran ni ddweud "dyna ni wedi gwneud ein dyletswydd rŵan, hwyl fawr" (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

6.1.2 Soniodd rhai rhanddeiliad cymunedol am adawyr carchar yn gorfod mynychu swyddfeydd tai ar ddiwrnod eu rhyddhau ac os oeddent yn methu â gwneud hynny, byddai eu hachos yn cael ei ollwng:

> *Os ydyn nhw'n dweud wrthynt fod yn rhaid iddyn nhw fynychu opsiynau tai ar ddiwrnod eu rhyddhau, os nad ydyn nhw'n troi i fyny am ba reswm bynnag, maen nhw jest yn gollwng y ddyletswydd (Rhanddeiliad cymunedol).*

6.1.3 Trwy grwpiau'r ymatebwyr rhanddeiliaid, dynodwyd ystod o brosiectau a gwasanaethau oedd ar gael i letya a/neu cefnogi gadawyr carchar. Dynodwyd rhai fel rhai arbenigol ar gyfer gadawyr carchar un unig, tra bod eraill yn enerig o ran natur. Cafwyd cryn amrywiaeth rhwng Awdurdodau

Lleol o ran y mathau o letyau oedd ar gael e.e. hosteli, modelau craidd a chlwstwr a chefnogaeth hyblyg gyda lefelau staffio a threfniadau cyflenwi amrywiol. Eto, ychydig iawn o dystiolaeth oedd yna o weithio trawsffiniol er mwyn cwrdd ag angen. Soniodd pob rhanddeiliad awdurdod lleol am garcharion yn cael cymorth posibl i gael gafael ar y sector rhent preifat a rhywfaint o fynediad at gynlluniau bondiau a blaendal uwch.

6.1.4 Darparodd dau awdurdod lleol lety dros dro i bob carcharor am 14 diwrnod lle'r oedd angen. Hynny yw, roedd ganddynt fynediad i gyfleuster a rennir a letyai cyn-droseddwyr yn unig. Cyfeiriodd un arall at 'le ar lawr' a allai fod ar gael i unrhyw un nad oedd mewn angen blaenoriaethol ond a wynebai ddigartrefedd ar y stryd. Nid oedd ymatebwyr gadawyr carchar yn hoffi llefydd o'r fath, gan eu hystyried yn opsiynau sâl oedd yn eu rhoi mewn risg uwch o aildroseddu:

> *Rwy'n gwybod sut dai mae'r cyngor yn eu darparu ac mae popeth yn dibynnu lle maen nhw, os mai un o'r tai hynny lle mae lot o bobl yn rhannu yw e, rwy jest yn mynd i ddiweddu'n ôl yn y carchar, sai moyn bod yna (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

> *Mae yna lot o bobl sy'n gwrthod ein defnyddio ni yma achos eu bod nhw'n gweld mai dim ond pobl sy'n gaeth i sylweddau sy'n ei ddefnyddio. Felly, wnaiff lot o bobl ddim dod achos eu bod nhw'n poeni am ymddygiad y bobl eraill (Rhanddeiliad Cymunedol).*

6.1.5 Wedi dweud hynny, mewn ardaloedd lle nad oedd darpariaeth o'r fath ar gael, a'r dewis arall oedd digartrefedd ar y stryd neu ddefnyddio llochesi nos, cymeradwywyd datblygu darpariaeth o'r fath:

> *Dwi'n meddwl y dylsech chi fynd i hostel neu rywbeth – rhywle, nid cael eich gadael chi'n ddigartref... felly os ydyn nhw'n mynd i gael eu gadael ar y stryd wrth gwrs... rhowch rywle iddyn nhw aros, tai wedi'u rhannu neu rywbeth, helpwch nhw (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

6.1.6 Credai rhai Swyddogion Cyfrifol y gallai'r NPS neu'r CRC ystyried datblygu eu darpariaeth eu hunain i adawyr carchar ar hyd llinellau modelau BASS a safleoedd cymeradwyedig:

> *Rydym yn defnyddio'r Safleoedd Cymeradwyedig ar gyfer y troseddwyr risg uchel. Mi fydda i'n meddwl weithiau, yn hytrach na dibynnu ar gyrff elusennol, y dylsen ni gymryd cyfrifoldeb, fel tai BASS, yr ydym yn dueddol o'u defnyddio ar gyfer pobl ar remand a bod ganddynt rywle i symud ymlaen iddo. Petai gennym ni hynny, i allu symud i mewn am leiafswm o amser, 3 mis yna symud ymlaen (Swyddog Cyfrifol)*

> *Gadewch i'r gwasanaeth Prawf gael eu llety eu hunain i bobl symud i mewn iddo. Fel Safleoedd Cymeradwyedig ond i bawb, nid dim ond troseddwyr risg uchel. Byddai'n haws na nhw jest yn dod allan (Swyddog Cyfrifol).*

## 6.2 Gadawyr Carchar Risg Uchel/Canolig/Isel

6.2.1 Ystyriwyd dod o hyd i lety addas i droseddwyr risg uchel yn her. Yn enwedig pan ymddangosai eu bod yn ddigartref ar fyr rybudd oherwydd yr amser ychwanegol oedd yn ofynnol i ffynonellu lleoliadau oedd yn cymryd i ystyriaeth y ffaith y gallai'r troseddwr achosi risg uchel o niwed difrifol i eraill. Yn achos troseddwyr risg uchel, gallai lleoliadau o'r fath fod yn anaddas yn aml am eu bod o angenrhaid yn golygu agosrwydd at eraill a allai fod yn hyglwyf, neu oedd â mannau gweigion anhysbys am eu bod wedi cael eu gosod yno gan awdurdod lleol arall:

> *Os ydych yn delio gydag RSO, achos nid y ni yw'r unig rai sy'n gosod pobl yn y gwestai gwely a brecwast 'ma, mae pobl o'r tu allan i'r ardal yn gosod heb ddweud wrthyn ni. Felly rydym ni wedi gosod pobl gan feddwl ei bod yn berffaith saff am nad oes gennym ni neb yno, unrhyw ferched na phlant, ac mae'n troi allan fod un o'r awdurdodau i lawr y lôn wedi gosod rhywun 16 oed yno a heb ddweud wrthyn ni (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

6.2.2 Rheolwyr rhai troseddwyr risg uchel o dan MAPPA. Yn y mwyafrif o'r achosion hyn, roedd hyn fel petai'n hwyluso mwy o gydweithio rhwng asiantaethau i ymdrin â materion tai:

> *Felly gyda xxxx, am ei fod yn achos MAPPA sy'n golygu fod yr asiantaethau i gyd yn cwrdd o amgylch bwrdd. Ymhell cyn iddo gael ei ryddhau rydym yn cynllunio ar ei gyfer, mae tai yn un o'r asiantaethau hynny, ac mae hynny'n help mawr (Swyddog Cyfrifol).*

6.2.3 Dangosodd Rhanddeiliaid Awdurdodau Lleol wybodaeth amrywiol am brosesau cyfiawnder troseddol yn ymwneud â gadawyr carchar yn achosi risg uchel o niwed difrifol i eraill. Ni allai rhai rhanddeiliaid awdurdodau lleol weld y gwahaniaeth statws rhwng bod yn droseddwr risg ichel ac 'wedi eu henwi gan MAPPA' ac yn droseddwr sy'n rhwym wrth 'brosesau MAPPA'. Gan hynny, deallai rhai fod pob achos MAPPA yn risg uchel, yn rhwym wrth gyfarfodydd goruchwyliol/risg cyn-rhyddhau 6 mis cyn iddynt gael eu rhyddhau ac wedi'u heithrio rhag cael eu hystyried o dan y Llwybr Cenedlaethol:

> *Mae yna ddiffyg dealltwriaeth ac medden nhw wrtha i, "os yw rhywun yn lefel 2 MAPPA mae hynny'n golygu eu bod nhw'n risg uchel as os yw rhywun yn lefel 1 MAPPA maen nhw'n risg isel i ganolig" ac meddwn i "wel tydi hyn'na ddim yn wir" (Swyddog Cyfrifol).*

> *Mae achosion MAPPA wedi'u heithrio o'r Llwybr Cenedlaethol, maen nhw'n cael eu trafod yn y cam 6 mis... bob un ohonyn nhw, boed nhw'n droseddwyr lefel 1, 2 neu 3, yn risg uchel neu isel (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

6.2.4 Yn gysylltiedig â hyn, deallai rhai Swyddogion Cyfrifol fod troseddwyr a ryddhawyd i Safleoedd Cymeradwyedig yn dal yn yr 'ystad ddiogel' ac y dylent felly fod yn gymwys ar gyfer gwasanaethau wrth adael. Ar y llaw arall, deallai rhanddeiliaid awdurdodau lleol fod Deddf Tai (Cymru) yn rhoi statws Angen Blaenoriaethol i adawyr carchar yn unig.

*Rydym wedi gweld cynnydd enfawr mewn carcharorion yn cael eu rhyddhau i Safle Cymeradwyedig, heb i'r ALl wybod, yna'n gofyn i ni am gynlluniau symud ymlaen, felly maen nhw'n osgoi'r llwybr yn gyfan gwbl. Mae swyddogion prawf yn llwyddo rhywsut i'w gael i SC heb gynllun symud ymlaen, yna ddiwrnod neu ddau ar ôl gadael carchar a symud i'r Safle Cymeradwyedig, yn gofyn i ni am gynllun symud ymlaen. Ein hymateb ni yw "na sori" (Rhanddeiliaid Awdurdod Lleol).*

6.2.5 Yn ddiddorol, tra cyfeiriodd llawer o ymatebwyr awdurdodal lleol, cymunedol a Swyddogion Cyfrifol at drefniadau MAPPA, prin y soniwyd am IOM. Roedd hyn yn syndod gan y gallai trefniadau IOM fod wedi bod yn berthnasol i nifer o'r ymatebwyr gadawyr carchar, gydag is-set ohonynt yn ymddangos i fod yn ddigartref ac i mewn ac allan o'r carchar yn rheolaidd, ac yn hynny o beth, yn droseddwyr toreithiog.

6.2.6 Rhoddodd Swyddogion Cyfrifol adroddiadau gwahanol o'r modd y daethai troseddwyr yn gymwys ar gyfer statws IOM. Deallai rhai ei fod wedi'i neilltuo ar gyfer achosion risg uchel, tra deallai eraill ei fod yn ddibynnol ar fod yn ddefnyddiwr cyffuriau categori A. Roedd amrywiadau lleol o ran cymhwyster ar gyfer goruchwyliaeth IOM yn amlwg.

6.2.7 Goruchwyliwyd Troseddwyr Risg Uchel gan staff NPS oedd yn gyfrifol am reoli achosion (gan gynnwys OAsys a chynllunio dedfryd) carcharorion trwy gydol eu cyfnod yn y carchar ac wrth iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned. Roedd yr ymgysylltiad ehangach hwn, oedd yn gysylltiedig â thebygolrwydd y byddai'n rhaid i lawer o droseddwyr risg uchel dreulio cyfnod o amser mewn Safleoedd Cymeradwyedig ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, yn golygu y mynegwyd llai o bryderon ynghylch y modd yr aethpwyd i'r afael ag anghenion tai troseddwyr risg uchel, na throseddwyr risg isel/canolig.

6.2.8 Goruchwyliwyd ymatebwyr gadawyr carchar a aseswyd yn risg isel neu ganolig o niwed difrifol gan CRC Cymru. Roedd y lefel o oruchwyliaeth a roddwyd i'r ymatebwyr hyn, trwy ganolfannau 'Mewn Cysylltiad' yn aml, yn fychan iawn. Esboniwyd y 'cyffyrddiad ysgafn' yma gan Swyddogion Cyfrifol yn y CRC gan gyfeirio at feichiau achosion uchel:

*Mae ein beichiau achosion wedi cynyddu ac ar y foment, mae gen i 70, mae gan bobl feichiau achosion o 100, felly'r broblem yw y byddwch yn canolbwyntio ar y bobl yr ydych yn eu gweld o ddydd i ddydd, byddwch yn ymwybodol fod hwn a'r llall yn y ddalfa ar hyn o bryd, a hynny'n cael ei ohirio. (Swyddog Cyfrifol).*

6.2.9 Wedi dweud hynny, daeth achosion o staff CRC yn arddangos cydymdeimlad mawr tuag at adawyr carchar a lefelau o ymroddiad tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn drefniadaethol, i'r amlwg:

*Mae'r boi sydd gen i'n dod allan, mae o mor hyglwyf […] mae'n biti garw. Es i draw i'r (archfarchnad) amser cinio, a phrynu fflasg a 12 can o gawl. Meddyliais y baswn yn eu cadw yn fy nghwpwrdd er mwyn iddo allu dod i mewn bob dydd ac mi alla'i eu cynhesu nhw ac ail-lenwi ei fflasg iddo, o leia mae o'n gallu cael rhywbeth poeth wedyn, rhoi punt iddo i fynd i nôl bara... a photel o Lucozade i geisio cadw ei lefelau egni i fyny o leia, achos dwi'n meddwl ei fod yn fflagio (Swyddog Cyfrifol).*

## 6.3 Rhywedd

6.3.1 Yn nhyb rhanddeiliaid proffesiynol, roedd ymgysylltu â gadawyr carchar yn fwy pendant nag yn achos gadawyr carchar gwrywaidd. Cysylltwyd hyn â'r ffaith fod gan lawer o adawyr carchar benywaidd ddyletswyddau rhiant neu ofal, neu nodweddion hyglwyf a roddai statws Angen Blaenoriaethol i gyfran helaeth ohonynt:

*Yn fy mhrofiad i, yn achos troseddwyr benywaidd, gallwch wastad ddadlau eu bod yn hyglwyf, er y gwn fod dynion yn gallu bod yr un mor hyglwyf. Ond, yn y sefyllfa gyda'r swyddog tai, os oes ganddi hanes o gael ei chamdrin ac ati, efallai eu bod yn fwy tebygol o asesu risg yn y senario hwnnw, nag yn achos dyn, sydd mewn ffordd wedi bod yn gyfrifol (Swyddog Cyfrifol).*

6.3.2 Cyfwelwyd llai o ymatebwyr gadawyr carchar benywaidd. Cafwyd hanesion hirach am ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau tai gan y

rheiny a gyfwelwyd na chan ymatebwyr gadawyr carchar gwrywaidd. Adroddwyd hanesion yn ymwneud â phroblemau camddefnyddio sylweddau mwy difrifol a gwaharddiad o anheddau. O'u cymharu ag ymatebwyr gadawyr carchar gwrywaidd, fodd bynnag, ymddangosai fod ganddynt fwy o bobl yn delio â'u hachosion cyn iddynt gael eu rhyddhau.

6.3.3 Tra'r ymddangosai fod ymgysylltu ag ymatebwyr gadawyr carchar benywaidd yn fwy digonol, dywedwyd fod y gwasanaethau i gwrdd â'u hanghenion yn fwy cyfyngedig. Roedd ymatebwyr gadawyr carchar benywaidd yn aml yn canfod eu hunain 'mewn perygl' mewn system a ddarparai ar gyfer dynion yn bennaf:

> *Roeddwn i mewn hostel gwpwl o flynyddoedd yn ôl, ac mewn sefyllfa lle mai dim ond dynion oedd yn yr hostel, felly roedd y gwasanaethau prawf wedi fy rhoi i mewn lle hyglwyf (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

6.3.4 Mae llawer o droseddwyr risg uchel yn cael eu gosod mewn Safleoedd Cymeradwyedig fel un o amodau eu rhyddhau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw Safleoedd Cymeradwyedig i ferched yn ne Cymru, a dim ond llefydd i ddwy ddynes yng ngogledd Cymru. Soniodd ymatebwyr gadawyr carchar benywaidd am rwystrau i ailsetlo yn sgil cael eu gosod mewn Safleoedd Cymeradwyedig yn Lloegr:

> *Felly roedd yn rhaid i mi fynd i ….aros mewn hostel yn….. ac ar ôl hynny roeddwn yn ddigartref gan fod yr hostel yn rhy bell o 'nghartref a minnau'n nabod neb. Chefais i ddim help o gwbl achos mae fy nheulu yn byw yng Nghymru felly wnes i ddim aros yna o gwbl a diweddu'n ddigartref (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

6.3.5 Soniodd un o'r ymatebwyr gadawyr carchar benywaidd am fod yn destun cyfarfod amlasiantaethol. Bu un arall yn gysylltiedig â Chanolfan i Ferched ar ôl cael ei rhyddhau, oedd yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth a lluosog. Ni soniwyd am y prosiect Braenaru i Ferched yn ne Cymru, ond cyfeiriodd Swyddogion Cyfrifol ato fel fforwm amlasiantaethol buddiol lle gallai anghenion rhai gadawyr carchar gael eu harchwilio cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar:

*Mae'r Cynllun Braenaru i fenywod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd yr wyf yn eu mynychu mor aml ag y galla'i, felly os oes rhywun yn y ddalfa ac mae ganddyn nhw denantiaeth, yna mae darparwyr prawf a mathau eraill o gefnogaeth eisiau gwybod beth sy'n digwydd, yn y bôn, mae'n gyfle i gyfathrebu gyda gwahanol asiantaethau yn fwy na dim (Swyddog Cyfrifol).*

## 6.4 Ymgysylltu â Charcharorion yn y Gymuned

6.4.1 Mae'r broses o amcangyfrif dedfrydau yn golygu fod nifer fawr iawn o adawyr carchar yn cael eu rhyddhau ar ddydd Gwener. Mewn achosion lle mae gan adawyr carchar gryn bellter i deithio adref, fe allai hynny olygu eu bod yn ddigartref ddiwedd prynhawn Gwener pan fo adrannau tai a swyddfeydd prawf ar fin cau am y penwythnos:

*Felly mae gen i dagfa o droseddwyr yn dod allan ddydd Gwener, y niferoedd sy'n rhaid eu cael o Eastwood Park, Bryste, er enghraifft, ac mae'n rhaid iddyn nhw ddod yma a mynd draw i'r adran dai cyn iddyn nhw gau, fel arall hyd yn oed os oes cymorth yn cael ei drefnu, fydd hynny ddim tan ddydd Llun (Swyddog Cyfrifol).*

6.4.2 Soniodd ymatebwyr gadawyr carchar a gyfwelwyd yn nhon 2 o'r astudiaeth, ac a gadwodd apwyntiadau, eu bod wedi cael cynnig cymorth i ddod o hyd i lety gan yr awdurdodau lleol. Soniodd Swyddogion Cyfrifol hefyd fod cymorth i sicrhau llety ar gael:

*Felly ar y foment mae ganddo gyfeiriad 'yng ngofal' o hyd, mae'n dal yn NFA; o ran tegwch i'r awdurdod lleol yn yr ardal yma, fe wnân nhw ein helpu a chynorthwyo gyda mis o rent o flaen llaw ac fe wnawn ni ei helpu i sicrhau bond. Ei gyfrifoldeb ef wedyn fydd dod o hyd i le i'w rentu (Swyddog Cyfrifol).*

6.4.3 Fodd bynnag, dynodwyd fod gadawyr carchar newydd eu rhyddhau yn dadgysylltu'n gyflym o'r gwasanaethau:


*Yn aml iawn wnân nhw ddim hyd yn oed trafferthu mynd at yr adran dai mwyach, dydyn nhw naill ai ddim yn hoffi'r*

*lle maen nhw'n cael eu rhoi neu ddim yn cael eu lletya am ba reswm bynnag, neu mi fyddan nhw'n aros o gwmpas am ryw awr ac yn gadael am na fydd neb yn eu gweld (Rhanddeiliad cymunedol).*

6.4.4 Soniodd Swyddogion Cyfrifol a rhanddeiliaid awdurdodau lleol am bwysigrwydd ysgogi gadawyr carchar i fynychu apwyntiadau a chysylltu â gwasanaethau tai ac eraill yn y gymuned e.e. cwnsela alcohol. Fodd bynnag, mae ysgogi ac ymgysylltu â gadawyr carchar yn gofyn am sgiliau penodol, ac ymddangosai staff mewn adrannau tai awdurdodau lleol i amrywio'n eang o ran eu hyfforddiant a'u profiad. Roedd gan rai hyfforddiant ffurfiol mewn cwnsela ac wedi gweithio yn y system cyfiawnder troseddol ac felly'n gyfarwydd â chyfweld ysgogol ac ymwneud â phobl ag anghenion amrywiol. Roedd gan eraill gefndiroedd gweinyddol a chysylltiedig â pholisi, ac yn fwy cyfarwydd â chyfrifoldebau cyfreithiol a threfniadaethol.

6.4.5 Yn nhon 2, roedd modd dilyn hynt 67 o ymatebwyr gadawyr carchar. Arweiniodd ymdrechion i wneud hyn at gynnal 22 cyfweliad ton 2:

**Ffigur 14: Statws gadawyr carchar yn nilyniant Ton 2**





Sail: 67 gadawyr carchar sy'n gymwys ar gyfer cyfweliadau ton 2 dilynol

6.4.6 Roedd nifer ymddangosiadol fawr o ymatebwyr gadawyr carchar wedi cael eu dychwelyd i'r ddalfa (n=17). Nid oedd modd ailgyfweld yr unigolion hynny, felly nid oes modd chwaith gwneud sylw am y rôl oedd gan eu statws llety i'w chwarae yn y deilliant hwn. Fodd bynnag, roedd 15 o'r

rheiny a adalwyd wedi trafod eu cynlluniau llety gydag ymchwilwyr yn nhon 1, a 9 o'r rheiny wedi rhagweld y buasent yn DCS.

6.4.7 Ailgyfweliwyd 22 o'r ymatebwyr gadawyr carchar. Yn ystod y cyfweliadau, nodwyd eu statws llety ar y pryd hynny fel a ganlyn:




Sail: Hunanadroddiad gan 22 gadawr carchar a gyfwelwyd yn nhon 2

6.4.8 Yn y ffigur uchod, mae'r categori DCS yn cynnwys y rheiny a ddisgrifiodd batrymau byw ansefydlog, naill ai gyda ffrindiau/soffa syrffio, yn defnyddio hosteli/llochesi nos, neu'n ddigartref ar y stryd. Gan hynny, mae 'teulu' yn cynnwys y trefniadau hynny a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr fel bod yn eithaf sefydlog yn unig.

6.4.9 O'r 22 ymatebwr gadawr carchar a gyfwelwyd, soniodd 15 eu bod wedi cael rhyw gysylltiad gyda thîm tai awdurdodau lleol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa. Dywedodd naw o'r ymatebwyr gadawyr carchar fod cymdeithas tai/asiantaeth gynorthwyo wedi bod mewn cysylltiad â hwy a'u helpu i ddod o hyd i lety.

6.4.10 Soniodd y naw ymatebwr gadawr carchar hyn am gael cymorth gyda llety gan unigolion oedd yn amlwg yn gysylltiedig â chymdeithas tai neu asiantaeth a ddarparai gefnogaeth i bobl ddigartref. Cyfeiriwyd saith i hostel, pedwar i lety lle ceir cefnogaeth, ac un i'r sector rhentu preifat.

Helpwyd ymatebwr gadawr carchar arall i gael gafael ar fond i sicrhau llety rhent preifat.[2]

6.4.11 Nid oes modd dod i ganlyniadau penodol ynghylch pa asiantaeth wnaeth ddarparu pa fathau o gymorth i ymatebwyr gadawyr carchar yn y gymuned. Roedd hyn am nad oedd yr ymatebwyr gadawyr carchar yn nodi'n aml pa asiantaeth oedd wedi eu helpu, gan gyfeirio yn hytrach, yn ôl eu henwau cyntaf fel arfer, at weithwyr penodol.

6.4.12 Soniodd dau ymatebwr gadawr carchar yn benodol eu bod wedi cael eu helpu gan yr awdurdod lleol trwy gael eu rhoi mewn llety dros dro. Awgrymodd tri, fodd bynnag, mai'r unig gymorth a gynigwyd iddynt oedd pabell a sach gysgu.

6.4.13 Awgrymodd saith ymatebwr gadawr carchar fod ganddynt gysylltiad cyson gyda thîm tai awdurdod lleol ar ôl cael eu rhyddhau ond nad oedd hynny wedi bod yn fuddiol. Fodd bynnag, ymddengys fod yna bosibilrwydd fod y cymorth y dywedasant eu bod wedi ei dderbyn gan asiantaeth arall wedi cael ei hwyluso gan yr awdurdod lleol.

6.4.14 Ymddangosai ymatebwyr gadawyr carchar a Swyddogion Cyfrifol i asesu perfformiad awdurdodau lleol yn bennaf yn ôl eu gallu i ddod o hyd i lety brys i adawyr carchar. Nid oedd y gwaith cymorth tymor canolig a hirach a ymgymerwyd ganddynt i helpu gadawyr carchar i sicrhau llety bob amser yn cael ei gydnabod na'i werthfawrogi:

> *Dydyn nhw ddim i weld yn barod i droi lan os nad oes yna gynnig o lety (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

> *Maen nhw'n datgysylltu gyda ni'n syth ar ôl cael eu rhyddhau os ydyn nhw'n gwybod nad ydym yn cynnig unrhyw beth ar unwaith (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

6.4.15 Dynodwyd is-set o adawyr carchar gan randdeiliaid proffesiynol fel y rhai a dderbyniai'r ddarpariaeth fwyaf annigonol o ran trefniadau darparu gwasanaethau i adawyr carchar. Roedd yr is-set yma yn cynnwys gadawyr carchar, cyfarwydd iawn i wasanaethau tai, oedd yn ddigartref

[2] Gwnaeth amgylchiadau rhai o'r gadawyr carchar hyn newid yn yr wythnosau ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

wrth fynd i'r carchar a chyda hanes hir o gamddefnyddio sylweddau. Roeddent yn adawyr carchar oedd fel petaent wedi eu dal mewn cylch cas o fwrw dedfrydau carchar byr wedi'u dilyn gan gyfnodau byr yn y gymuned (yn aml ar y stryd, yn soffa syrffio neu mewn hosteli) cyn iddynt aildroseddu a chael eu hadalw neu eu carcharu unwaith eto:

> *Mae rhai pobl i mewn a mas, fe allant fynd yn ôl mewn pythefnos ac yna maen nhw mas eto... Y bobl sy'n dueddol o fod yn y cylch cas 'na…, felly mae'n dueddol o fod yn bythefnos yn ôl yn y ddalfa ac yna... yn ôl i'r dechrau bob un tro (Swyddog Cyfrifol).*

> *Y broblem ydi, nes iddi gael llety sefydlog a chyfeiriad sefydlog, ni all y gwasanaethau weithio gyda hi ac all hi ddim cael cyfeiriad sefydlog am nad yw hi'n cydymffurfio a gweithio gyda'r gwasanaethau, mae fel bod rhwng y diawl a'i gynffon (Swyddog Cyfrifol).*

6.4.16 Roedd yr unigolion hyn yn anodd eu lletya am fod ganddynt hanes o fethiannau tenantiaeth:

> *Weithiau mae landlordiaid PRS yn gyndyn i gymryd rhai cyn-droseddwyr gan fod nifer o unigolion yn adnabyddus i'r landlordiaid (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

> *Mae cymdeithasau tai yn dod yn gyfarwydd â'r carcharorion ac felly mae eu hymddygiad troseddol, ar y cyd â thenantiaethau sy'n cael eu rhedeg yn wael, yn gwneud landlordiaid yn gyndyn i gynnig tenantiaethau pellach (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

6.4.17 Roedd rhai o'r ymatebwyr gadawyr carchar yn yr ymchwil yn cwrdd â'r meini prawf i gael eu hystyried yn adawyr carchar digartref 'cylch cas'. Teimlent fod y ddarpariaeth ar eu cyfer yn annigonol a'u bod yn annhebygol o dderbyn cymorth. Dyma sut y disgrifiwyd eu sefylla yn nhon 1 ganddynt:

> *Rwy'n diodde o iselder a phryder ac ambell waithrwy wedii meddwl "lle rwy'n mynd i fynd, beth rwy'n mynd i'w wneud", achos yr ychydig droeon diwetha rwy wedi cael fy adalw ar yr un diwrnod achos bod 'da fi nunlle i fynd ac fe ges i ddiod ac fe wnaeth y gwasanaeth prawf fy adalw, mae'n hen gylch cas (Ymatebwr gadawr carchar)*

> *Yr hyn sy'n mynd i ddigwydd ddydd Gwener ydi fy mod i'n mynd i gyfarfod, maen nhw'n mynd i roi £46 i mi a dwi'n mynd i fynd at y gwasanaeth prawf, sy'n mynd i ofyn, "lle ti'n aros?" "Pam ydych chi'n gofyn hyn'na i mi? Da chi'n gwybod nad ydw i'n aros yn nunlle"... a fydda i jest yn mynd am beint achos mae'n benwythnos beth bynnag... ac mi fyddwn i wedi cael cwpwl o beints a dweud "olreit" a phasio allan ac yna'n diweddu'n ôl fan hyn eto (Ymatebwr Gadawr Carchar)*

6.4.18 Credai'r ymatebwyr gadawyr carchar 'cylch cas' hyn y buasent yn debygol o aildroseddu pe baent yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau. Credent hefyd y buasent yn aildroseddu ar bwrpas gan fod bod yn y ddalfa yn opsiwn mwy dymunol na bod yn ddigartref ar y stryd:

> *Os oes 'na ddim byd o gwbl, dwi'n bendant ddim yn mynd i aros ar y stryd, felly mi wna'i rywbeth i ddod yn ôl fan hyn, ac felly mae hi, yn ôl a 'mlaen (Ymatebwr Gadawr Carchar)*

*Dwi mewn bob blwyddyn â dweud y gwir…, dwi ar y stryd am tua tri mis ac mae angen seibiant arna'i felly dwi'n dod yma, dwi'n gwneud pethau'n fwriadol, mae'n mynd yn waeth ar y strydoedd, mae fy iechyd yn dirywio, dwi'n cymryd mwy o gyffuriau, yna dwi'n cael llond bol ac yn cael fy arestio, jest er mwyn dianc am sbel (Ymatebwr Gadawr Carchar)*


6.4.19 Cyfeiriodd y Swyddogion Cyfrifol hefyd at a adawyr carchard digartref yn aildroseddu'n fwriadol er mwyn cael lloches mewn carchar:

*Dwi'n nabod pobl sy'n dod allan a throseddu, yn llythrennol er mwyn mynd yn ôl i'r carchar er mwyn cael to uwch eu pennau a thri pryd o fwyd call, ac mae'n gynnes. Es i weld un yr wythnos yma ac meddai 'ie dwi'n gwneud hynny weithiau, achos dwi'n dod i mewn ac mae gen i le braf, mae gen i ddwy fatres ar fy ngwely'. Mae'n drist, dydi? (Swyddog Cyfrifol)*

## 6.5 Statws Angen Blaenoriaethol

6.5.1 Gofynnwyd i ymatebwyr arolwg awdurdod lleol i asesu pa effaith yr oedd dileu statws awtomatig Angen Blaenoriaethol wedi ei chael ar y nifer o adawyr carchar oedd yn gymwys am lety dros dro yn eu hardal hwy. fel y dengys y ffigur canlynol, efallai nad oedd yn syndod fod bron i bob ymatebydd arolwg awdurdod lleol o'r farn fod dileu statws awtomatig Angen Blaenoriaethol wedi arwain at ostyngiadau yn y nifer o garcharorion sy'n gymwys am lety dros dro:

Ffigur 16: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdodau lleol o'r effaith y mae dileu statws awtomatig Angen Blaenoriaethol wedi ei gael ar niferoedd o adawyr carchar mewn oed sy'n gymwys ar gyfer llety dros dro yn Ardal eu Hawdurdod Lleol.




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 22 i'r cwestiwn hwn)

6.5.2 Serch hynny, roedd rhanddeiliaid awdurdodau lleol yn gefnogol ar y cyfan o'r penderfyniad i ddileu statws awtomatig Angen Blaenoriaethol carcharorion. Roedd yr adroddiadau yma yn canolbwyntio ar sawl mater, y cyntaf oedd moesoldeb darparu statws uwch i unigolyn oedd wedi troseddu dros unigolyn mewn safle tebyg nad oedd efallai wedi troseddu:

> *Teimlwyd nad oedd angen blaenoriaethol am lety yn cael yr effaith ddymuniedig a gallwch gael dau unigolyn cymaradwy, yr unig wahaniaeth ydi fod un wedi bod yn y ddalfa ac un heb, a byddai'r person hwnnw yn cael blaenoriaeth, ac nid oedd hynny'n cael ei ystyried yn deg (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

6.5.3 Yn ogystal, credai rhai rhanddeiliaid awdurdodau lleol a chymunedol fod y system flaenorol o roi statws Angen Blaenoriaethol i bob gadawr carchar wedi creu cymhelliad croes i aildroseddu:


*Doedd o ddim yn gweithio, roedd gadawyr carchar yn cymryd yn ganiataol, unwaith yr oedden nhw wedi colli eu llety dros dro neu beth bynnag, y gallen nhw fynd a throseddu, mynd yn ôl i'r carchar, dod allan eto ac y buasen ni'n rhoi llety iddyn nhw eto, felly roedd pobl wastad yn dweud wrthym ni, "os nad ydych chi'n mynd i roi llety i mi, dwi'n mynd i droseddu ac mi fydd yn rhaid i chi roi llety i mi" (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

6.5.4 Roedd cefnogaeth i ddileu statws awtomatig Angen Blaenoriaethol hefyd yn seiliedig ar wendidau tybiedig system a geisiau drafod digartrefedd trwy ddarparu hawliau cymwysedig i loches yn unig. Awgrymodd Rhanddeiliad Awdurdod Lleol, tra bod y dull blaenorol yn golygu fod rhai gadawyr carchar yn cael cynnig llety dros dro (gwely a brecwast yn aml) o dro i dro, y gallai'r manteision cysylltiedig â hyn fod yn fyrdrymor iawn:

*Dwi'n meddwl mai bwriad y 28 diwrnod awtomatig oedd y buasem yn arfer dweud "dyna chi dyna'r llety", 28 diwrnod yn ddiweddarach rydych chi allan a dyna ni, ddim yn gwneud llawer â nhw o gwbl (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

*Roedden nhw'n dod allan ac …felly buasen nhw'n cael eu 28 diwrnod ac yna mi fuasen nhw'n troi allan i fod, yn amlach na heb, yn "fwriadol ddigartref" ac yn cael rhybudd i adael heb ddim cymorth go iawn wedyn i symud ymlaen (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

6.5.5 Yn arolwg yr awdurdod lleol, roedd barn wedi'i rannu o ran a fu yna gynnydd neu ostyngiad yn y niferoedd o adawyr carchar a ryddhawyd yn ddigartref ers i'r Llwybr Cenedlaethol ddod i rym:




Sail: Arolwg o 22 awdurdod lleol (ymatebodd 19 i'r cwestiwn hwn)

6.5.6 Fel y dengys y ffigur uchod, roedd barn wedi ei rannu yn eithaf cyfartal rhwng y rheiny oedd yn credu fod yna rywfaint o gynnydd neu rywfaint o ostyngiad yn y niferoedd o adawyr carchar a ryddhawyd yn ddigartref ers Mai 2015.

6.5.7 Ble dywedwyd fod yna gynnydd wedi bod, priodolwyd hyn i faterion tai ochr gyflenwi a mwy o garcharorion yn cael eu rhyddhau yn ddigartref, tra o'r blaen y byddent wedi cael llety dros dro. Roedd adroddiadau o ddim newid neu ostyngiadau yn y nifer o adawyr carchar yn cael eu rhyddhau yn ddigartref yn canolbwyntio ar adawyr carchar ddim yn cyflwyno eu hunain i wasanaethau tai neu'n dod o hyd i'w hatebion eu hunain i ddigartrefedd unwaith y deuai'n eglur na fyddai llety dros dro yn cael ei ddarparu:

> *A dweud y gwir mae llawer o bobl yn mynd ôl i'w cyfeiriadau hysbys olaf, yn datrys pethau drostyn nhw'u hunain, dydyn ni heb weld y cynnydd anferth yr oeddwn wedi disgwyl ei weld (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

*Llynedd, mi gawsom ein synnu gan y ffaith nad oedd y cynnydd mor fawr â hynny, felly mae pobl fel y soniais i naill ai'n aros lle'r oedden nhw pan aethon nhw mewn ac yn meddwl "dwi ddim yn mynd i fod yn flaenoriaeth ar gyfer llety, waeth i mi gadw fy nhŷ"... felly mae pobl yn dueddol o gael atebion eraill 'nôl adre neu mae ffrindiau a theuluoedd yn eu helpu nhw (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

6.5.8 Mewn cyferbyniad â hyn, roedd rhanddeiliaid carchardai a Swyddogion Cyfrifol yn feirniadol o ddileu statws awtomatig Angen Blaenoriaethol i adawyr carchar. Roedd eu beirniadaeth yn canolbwyntio ar anghenion heb eu cwrdd ond yn ymwneud hefyd â'r ffaith fod trefniadau diwygiedig wedi peri iddynt orfod wynebu materion digartrefedd a rheoli risg mewn ffordd nad oeddent wedi ei wneud o'r blaen:

*Pe bai gen i achos oedd yn y carchar a bod ganddyn nhw ddim cyfeiriad sefydlog, roedd yn debygol iawn y buasen nhw'n cael llety dros dros ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Felly doedd hyn byth yn rhywbeth yr oedd angen i mi boeni amdano. (Swyddog Cyfrifol).*

*Felly, o ran asesu risg…fe allen ni gynnig opsiwn arall pan oedd ganddyn nhw angen blaenoriaethol… Ond fedran ni ddim gwneud hynny rŵan ac mae'n llawer anoddach i'r heddlu lle mae pobl yn aros (Swyddog Cyfrifol).*

6.5.9 Ychydig iawn o'r 75 o ymatebwyr gadawyr carchar a gyfwelwyd yn y ddalfa oedd yn gwneud eu dedfryd carchar cyntaf. Gan hynny roedd y rhan fwyaf mewn sefyllfa i gymharu'r modd yr oedd eu hanghenion tai wedi cael eu hasesu a'u trafod dros amser. Roedd llawer o'r ymatebwyr gadawyr carchar hyn yn gresynu colled statws awtomatig Angen Blaenoriaethol. I rai, roedd cymhwyster awtomatig wedi rhoi sefydlogrwydd iddynt ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar:

*Reit, gwrandewch, mi wnaeth y peth 28 diwrnod 'na fyd o wahaniaeth i mi, gan roi amser i mi addasu, dwi'n medru gofyn iddyn nhw aros tra dwi'n mynd drwy'r holl rigmarôl o gael doctor achos roedd angen cyfeiriad arna'i er mwyn cael doctor a dwi wedi clywed fod yn rhaid iddyn nhw roi nodyn ffitrwydd i chi a meddyginiaeth, ac mae'r amser yna gennych chi wedyn i sortio eich pres allan, felly mae eich pres chi'n mynd i mewn achos dydych chi ddim yn ei gael o pan ydych chi'n gadael y carchar, mae'n rhaid i chi'i sortio fo allan ac mae'n medru cymryd 3 neu 4 wythnos (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

6.5.10 Wedi nodi hynny, aeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gadawyr carchar hyn yn dal ymlaen i ddisgrifio eu profiadau mewn termau negyddol. Gwnaethont hwy a rhai Swyddogion Cyfrifol sôn am adawyr carchar yn cael eu gosod mewn llety a rennir o safon isel gyda gadawyr carchar eraill, yn eu plith nad oedd yn ymroddedig i osgoi defnyddio sylweddau a/neu droseddu:

*Y munud y des i allan, fe roeson nhw lety i mi. Dwi ddim yn lecio barnu pobl ond fe ges i fy rhoi i efo llwyth o bobl na ddylwn i gael fy nghysylltu â nhw, pobl sy'n cymryd cyffuriau, dim ond yfed ydw i a dwi'n lecio cadw hynny i mi fy hun, dwi ddim eisiau bod mewn cymuned, felly roeddwn i'n ôl yn y carchar o fewn tua mis ar ôl gadael (Ymatebwr gadawr carchar).*

*Fe roeson nhw lety i mi, math o hostel, gan roi wythnos i mi ddod o hyd i rywle ac ar ôl wythnos fe ges i luch allan, efo rhestr o bobl i'w ffonio am rent preifat ond doedd 'na neb yn derbyn DSS ac ati (Ymatebwyr gadawr carchar).*

6.5.11 Roedd Rhanddeiliad Awdurdodau Lleol yn gwerthfawrogi'r dylanwad yr oedd hawliau amodol newydd yn ei roi iddynt. Roedd yn gysylltiedig â gwell cyfranogiad o'r broses dai gan adawyr carchar:

> *Mae yna gynnydd yn y cyfnod aros mewn llety ar gyfartaledd gan bod y rheiny mewn llety, ar y cyfan, yn well am ymgysylltu â gwasanaethau er mwyn cynnal y llety hwn a bod mewn lle i sicrhau llety mwy parhaol (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*
>
> *Rydym yn gallu tynhau'r prosesau a chael canlyniadau gweithredoedd yn awr, tra o'r blaen mi fuasen ni'n rhwystredig dros ben efo'r bowndiadau a ddeuai o'r carchardai yn aml pan y bônt wedi bod eisiau llety, yn meddwl dim amdano ac yna'n dychwelyd, felly i ni mae hynny wedi bod yn ganlyniadau cadarnhaol mewn gwirionedd (Rhanddeiliad awdurdod lleol).*

## 6.6 Digartrefedd Bwriadol

6.6.1 Roedd gan nifer o'r ymatebwyr gadawyr carchar a gafodd eu cyfweld hanes o leoliadau wdi methu ac eithriadau yn seiliedig ar ymddygiad problematig. Un canfyddiad ymhlith Swyddogion Cyfrifol oedd fod rhai yn cael eu heithrio o wasanaethau digartref oehrwydd hyn. Yn yr achosion hynny, y mecanwaith trwy'r hwn y cyflawnwyd yr eithriad yma oedd iddynt cael eu hasesu yn fwriadol ddigartref:

> *Dyna dwi'n ei deimlo bob man rydan ni'n mynd; tydi hi ddim yn gymwys am lety dros dro, am iddi gael ei lluchio allan o'i llety dros dro ar ddau achlysur gwahanol eleni, oherwydd ei hymddygiad, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad ymosodol (Swyddog Cyfrifol).*

*Mae'r rham fwyaf o bobl sydd gen i'n dod allan yn cael eu hystyried yn anhyglwyf erbyn hyn, neu'n fwriadol ddigartref achos eu bod nhw wedi gadael biliau a dyledion trwy euogfarnau blaenorol, neu wedi torri ffenest, neu wedi torri amodau eu tenantiaeth mewn rhyw ffordd arall yn y gorffennol, felly mi fyddan nhw'n cael cynnig cyngor a chefnogaeth, ond dim llety argyfwng yn arwain at denantiaeth (Swyddog Cyfrifol).*

6.6.2 Un pryder yma oedd fod asesiadau o fwriadoldeb yn ymddangos yn sensitif i'r tebygolrwydd y gellid dod o hyd i lety yn hytrach na chanolbwyntio ar y mater o fwriadoldeb ei hun. Roedd yr Ymatebwr Gadawr Carchar y sonnir amdani yn y darn cyntaf (uchod) wedi cael ei lletya ac yna wedi cael ei thaflu allan o sawl lleoliad oherwydd ymddygiad problematig. Ymddangosai fod arni angen lefel uchel o oruchwyliaeth a chefnogaeth ond ar adeg ei rhyddhau fe'i haseswyd yn fwriadol ddigartref a rhoddwyd pabell iddi. Wrth sôn am hyn, fodd bynnag, mae'r Swyddog Cyfrifol yn cyfeirio'n bennaf at yr anhawster o ddod o hyd i rywle a allai ddelio gyda phroblemau ymddygiadol y gadawr carchar.

## 6.7 Cysylltiadau Lleol

6.7.1 Mae dyletswydda S68 ac S73 yn ddall i fwriadoldeb a chysylltiadau lleol. O ganlyniad, pryder a fynegwyd pan weithredwyd Deddf Tai (Cymru) oedd y potensial i awdurdodau lleol gyda charchardai o fewn eu terfynau dderbyn nifer gynyddol o geisiadau am wasanaeth. Pan ofynnwyd iddynt wneud sylw am hyn, ni chredai'r rhanddeiliaid proffesiynol fod hwn yn bryder oedd wedi cael ei wireddu.

6.7.2 Yn arolwg yr awdurdod lleol, awgrymodd rhanddeiliaid mai eu hymateb nodweddiadol i dderbyn cais gan berson/aelwyd heb unrhyw gysylltiadau lleol oedd darparu cymorth tra'n eu cwnsela yn ôl i'w hardal leol ble gallai dyletswydd s75 dyletswyddfod yn ddyledus:

*Byddai'r Awdurdod yn cynorthwyo lle bo angen ac yn rhoi manylion eu hopsiynau i'r person dan sylw, gan esbonio deilliannau posib fel eu bod yn gallu gwneud dewis cytbwys ynglŷn â bwrw ymlaen gyda chais i'r Cyngor ai peidio (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

6.7.3 Fodd bynnag, yn ystod cyfweliadau, tra'n mynnu fod eu harferion hwy yn cydymffurfio â deddfwriaeth, byddai rhanddeiliaid awdurdodau lleol yn aml yn cystwyo arferion awdurdodau lleol cyfagos pan gredwyd fod cysylltiadau lleol yn cael eu hasesu yn rhy gynnar:

*Mae carcharorion wedi datgelu i'r tîm o'r blaen fod Awdurdodau Lleol eraill wedi gwrthod eu cynorthwyo oherwydd nad oes yna gysylltiad lleol, er eu bod nhw'n cwrdd ag angen blaenoriaethol (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

*Mae ardaloedd eraill yn llawer rhy barod i'w hanfon yn ôl i ble ddaethon nhw heb geisio darganfod pam nad ydyn nhw eisiau dychwelyd yno (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

## 6.8 Cefnogi Pobl a Gwasanaethau Cefnogi

6.8.1 Yn yr arolwg, gofynnwyd i randdeiliaid awdurdodau lleol pa newidiadau, os o gwbl, oedd wedi cael eu gwneud ers Mai 2015 i argaeledd a'r defnydd o wasanaethau Cefnogi Pobl i adawyr carchar. Roedd yr atebion yn ymwneud â dwy thema. Roedd y cyntaf yn ymwneud â nawdd a gwasanaethau yn aros yr un fath neu'n well:

*Nid wyf yn credu fod yna unrhyw newid wedi bod mewn comisiynu ers Mai 2015 (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

*Bu cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cefnogi Pobl i adawyr carchar, ac mae yna berthnasau gwaith agosach (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

*Nid yw cefnogaeth hyblyg, cefnogaeth tenantiaeth ac unrhyw lety cyfiawnder troseddol arall sydd ar gael gennym wedi dod i ben, roedd y nawdd cefnogi pobl yn dal i fodoli (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

6.8.2 Credai rhanddeiliad awdurdodau lleol hefyd fod y lefel o gefnogaeth a gynigir i garcharorion yn y tymor hirach yn well nag ydoedd cyn i'r Llwybr Cenedlaethol gael ei gyflwyno:

*Rydym wedi mynd allan i gynnig cefnogaeth mewn llety preifat hefyd, gan ein bod yn lletya mwy yn breifat, mae cefnogi pobl wedi gwneud hynny fel ein bod yn gallu cynnwys tai cymdeithasol a llety preifat (Rhanddeiliaid awdurdodau lleol).*

*Oherwydd y llwybr, dwi'n meddwl fod carcharorion yn cael llawer mwy o gefnogaeth nag oedden nhw yn y gorffennol efallai, felly mewn ffordd mae'n beth eitha da, ac yn anecdotaidd dwi wedi clywed cwpwl o bobl yn dweud fod carcharorion yn cael llawer gwell bargen nag yr oedden nhw (Rhanddeiliaid awdurdodau lleol).*

*Dwi'n meddwl fod pobl sy'n dod allan o'r ddalfa yn cael eu rhoi mewn llety mwy addas i'w hanghenion erbyn hyn yn hytrach na llety dros dro... rydym yn llawer mwy ymwybodol i sicrhau fod gan rywun gefnogaeth hirdymor wedi'i drefnu, yn hytrach na dim ond "o mae gennych chi lety rŵan dio ddim ots". (Rhanddeiliaid awdurdodau lleol).*

6.8.3 Cydsyniai ymatebwr gadawr carchar gyda'r asesiad. Wrth ystyried ei phrofiadau blaenorol a phresennol, meddai:

*Roedden nhw'n rhoi llythyr i chi ac yn dweud ewch â'r llythyr yma i'r adran dai; dwi'n meddwl fod hynny achos bod yn rhaid iddyn nhw roi llety i chi am 28 diwrnod ond ers hynny dwi'n meddwl eu bod nhw wedi dechrau gwneud gymaint ag y medran nhw i chi... Roedd y llythyr fel petai'n rhoi sicrwydd o rywbeth i chi ond erbyn hyn dwi'n meddwl eich bod chi'n cael mwy o gefnogaeth. Rydych chi'n llenwi'r ffurflenni ac maen nhw'n ymwybodol eich bod chi'n dod allan a dwi'n meddwl ei bod hi'n well eich bod chi'n cael y gefnogaeth (Ymatebwr Gadawr Carchar).*

6.8.4 Yr ail thema a gododd parthed nawdd Cefnogi Pobl oedd fod y nawdd hwnnw yn cael ei ddefnyddio i alluogi gwell darpariaeth o'r Llwybr Cenedlaethol (a drafodir yn fwy manwl yn nes ymlaen):

## 6.9 Dyletswydd Terfynol

6.9.1 Credai'r rhan fwyaf o randdeiliaid awdurdodau lleol fod yna ostyngiad bychan neu sylweddol wedi bod yn y nifer o adawyr carchar mewn oed oedd yn gymwys am ddyletswydd terfynol s75. Fodd bynnag, roedd adroddiadau am hyn yn bositif ar y cyfan, gyda llawer o ymatebwyr yn dweud fod hyn yn codi yn sgil dyletswyddau eraill yn cael eu cyflawni yn llwyddiannus:

*Mae'r nifer wedi gostwng ychydig am ddau reswm. Yn gyntaf, mae unigolion yn ymgysylltu â gwasanaethau yn ystod dyletswydd Adran 73 ac yn hynny o beth yn sicrhau llety cyn i unrhyw ystyriaeth gael ei roi i ddyletswyddau Adran 75 sy'n ddyledus. Yn ail, cafwyd lefel uwch o ymgysylltu o ran cynnal tai dros dro i droseddwyr yn rhannol oherwydd hyn ac yna'n sicrhau'r dyletswyddau sy'n ddyledus o dan Adran 75 (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

### 6.10 Dyletswyddau Rhyddhau

6.10.1 Fel y nodwyd yn barod, cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid proffesiynol at anawsterau dyletswyddau rhyddhau oherwydd fod rhai gadawyr carchar yn 'adnabyddus' ac yn anodd eu lletya am eu bod wedi ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol yn y gorffennol.

6.10.2 Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid awdurdodau lleol a chymunedol at anawsterau dyletswyddau rhyddhau oherwydd fod yna fwlch rhwng yr angen am dai fforddiadwy i garcharorion a chyflenwad:

> *Rydym yn cael trafferth dynodi llety preifat addas, yn enwedig ar gyfer ymgeiswyr unigol o dan 35 oed (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

> *Rydw i a'm cydweithwyr wedi treulio dyddiau yn ffonio landlordiaid a gwerthwyr tai yn trio dod o hyd i lety i bobl, ond mewn swyddfeydd gwerthwyr tai fel arfer fe welwch chi fflat ar rent ac mi fydd yn dweud 'Dim DHS', dim budd-daliadau, felly mae gennych chi broblem yn syth. (Swyddog Cyfrifol).*

6.10.3 Yn dibynnu ar yr ardaloedd awdurdodau lleol dan sylw, gallai'r nifer uchel o dai gwyliau, natur wledig yr awdurdod, presenoldeb myfyrwyr neu brosiectau isadeiledd mawrion effeithio ar argaeledd llety i adawyr carcharwho oedd yn dueddol o fod yn ddynion sengl:

> *Yn yr haf yn enwedig mae gwestai yn brysur – does arnyn nhw ddim angen i'r tîm opsiynau tai bwcio stafelloedd felly mae'n anodd iawn dod o hyd i lety (Rhanddeiliad Cymunedol).*

> *Mae xxxx yn sir Prifysgol, does gan y landlordiaid yma ddim syched am lety gan ei fod eisoes wedi ei ddiwallu. Mae ganddyn nhw fyfyrwyr felly does arnyn nhw mo'n hangen ni (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

## 7. Canfyddiadau: Arfer Gwell

### 7.1 Gweithio ar y Cyd a Rhannu Gwybodaeth


7.1.1 Cyfeiriodd rhanddeiliaid proffesiynol at broblemau llif gwybodaeth rhwng asiantaethau. Er hynny, cyfeiriasant hefyd at welliannau diweddar mewn gweithio ar y cyd rhwng asiantaethau oedd yn ymwneud â gadawyr carchar:

> *Ar y cyfan mae'r adborth mewn gwasanaethau rhannu gwybodaeth yn llawer gwell. Y ffordd y mae Awdurdodau Lleol a gwasanaethau giât yn siarad gyda'i gilydd, mae yna fwy o ymgysylltu rhyngddynt erbyn hyn, a'r ffordd maen nhw'n gweithio gyda'r gwasanaeth carchardai cyn rhyddhau yn gweithio'n llawer gwell (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

> *Yn sgil newidiadau mewn deddfwriaeth, mae'r cyngor hefyd yn llawer mwy gweithredol ac ymarferol, (Rhanddeiliad Cymunedol).*

7.1.2 Mae'r ffigurau canlynol yn dangos ymatebion i wahoddiad yn arolwg yr awdurdodau lleol i ddethol datganiad i ddisgrifio sut, os o gwbl, yr oedd gweithio ar y cyd gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol a darparwyr tai wedi datblygu ers Mai 2015:

**Ffigur 18: Canfyddiadau ymatebwyr arolwg awdurdod lleol o'r modd y mae gweithio ar y cyd wedi newid ers Mai 2015**




Sail: Arolwg o 22 ardal awdurdod lleol (ymatebodd 22 i'r cwestiwn hwn)

7.1.3 Fel y gwelir, credai 13 o ymatebwyr arolwg awdurdod lleol fod yna gynnydd ‘sylweddol’ neu ‘fychan’ wedi bod mewn gweithio ar y cyd gyda darparwyr gwasanaethau prawf ers Mai 2015. Credai 15 o ymatebwyr arolwg awdurdod lleol fod yna gynnydd ‘sylweddol’ neu ‘fychan’ wedi bod mewn gweithio gyda charchardai ers y dyddiad hwnnw.

7.1.4 Credai wyth ymatebwr arolwg awdurdod lleol nad oedd unrhyw newid wedi bod mewn gweithio ar y cyd gyda darparwyr gwasanaethau prawf, ac roedd pump o’r un farn o ran gweithio ar y cyd gyda charchardai. Parthed gweithio ar y cyd gyda darparwyr tai, y farn oedd fod yna lai o newid wedi bod.

7.1.5 Cyfeiriodd is-set o ymatebwyr arolwg at lefelau hanesyddol da o weithio ar y cyd oedd wedi cael eu cynnal neu eu hadeiladu arnynt o ganlyniad i brosesau newydd:

> *Rydym wastad wedi cael perthynas gadarnhaol gyda swyddogion prawf a darparwyr tai (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

> *Gydag atgyfeiriadau carchar / asesiadau risg yn dod trwodd cyn i’r carcharorion gael eu rhyddhau, mae yna fwy o weithio ar y cyd gyda CRC / Gwasanaeth Prawf a hefyd gyda charchardai. Mi fuasen ni wedi cael rhywfaint o gysylltiad gyda’r asiantaethau hyn o’r blaen, ond nid fel mater o gwrs ar gyfer carcharor sy’n cael ei ryddhau ac yn ddigartref* (*Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

7.1.6 Wedi dweud hynny, dylid pwysleisio fod yna werthusiadau cadarnhaol o weithio ar y cyd yn bodoli ochr yn ochr ag adroddiadau gweddol feirniadol o brofiadau o gael gafael ar a rhannu gwybodaeth am adawyr carchar. Cyfeiriwyd eisoes at yr anawsterau yr oedd rhanddeiliaid awdurdodau lleol yn eu hwynebu parthed derbyn manylion Atodiad 8 a 9. Soniodd llawer o randdeiliaid awdurdodau lleol, carchar a chymunedol am anawsterau cael gwybodaeth gan y naill a’r llall. Awgrymwyd fod hyn yn creu problemau trwy’r Llwybr Cenedlaethol i gyd o ran rheoli risg a sicrhau fod unigolion

yn cael cymorth i gael gafael ar lety addas. Soniodd yr ymatebwyr canlynol am risg cynyddol am nad oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu:

> *Yn achos un person… roedden ni wedi cael lle iddo, a dim ond wedyn y gwnaethon ni ddarganfod ei fod yn droseddwr rhyw cofrestredig o ALl gwahanol a doedd neb wedi dweud wrthyn ni, ddim hyd yn oed ei swyddog prawf (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

7.1.7 Dywedwyd fod cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn well pan oedd staff yn adnabod ei gilydd yn bersonol yn hytrach na'n weithrediadol. Roedd hyn yn debygol o fod yn wir pan oedd yna SPOC i adawyr carchar mewn ardal awdurdod lleol neu pan oedd aelod o staff awdurdod lleol yn delio gyda pherson unigol a/neu wasanaeth prawf ynghylch materion tai:

> *Yr hyn sy'n anodd dwi'n meddwl yw peidio â gwybod pwy i gysylltu â nhw a gorfod mynd drwy'r switsfyrddau, naill ai i siarad gyda'r ALl neu iddyn nhw siarad gyda ni... felly mae SPOC yn haws achos hebddyn nhw mae'n eitha anodd cynnal y perthnasau hyn yn ymarferol (Swyddog Cyfrifol).*

> *Mae'n ymwneud â'r holl fusnes rhwydweithio 'na mewn gwirionedd, rhoi wynebau i enwau…y ffurfio perthnasau sy'n gwneud pethau'n lot haws (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

## 7.2 Addasiadau Llwybr

7.2.1 Mewn ambell ardal awdurdod lleol, gwnaed addasiadau i'r Llwybr Cenedlaethol, rhai ohonynt wedi eu hariannu gan y Gronfa Bontio neu grant Cefnogi Pobl. Roedd addasiadau o'r fath yn gysylltiedig â chanfyddiadau o ddeilliannau mwy cadarnaol i adawyr carchar.

7.2.2 Un enghraifft o addasiad o'r fath oedd prosiect PREP a weithredwyd mewn rhannau o dde Cymru. Cafwyd adroddiadau gwahanol gan randdeiliaid awdurdodau lleol ac eraill am y trefniadau strategol ac ymarferol a fodolai, gan ganiatáu tasgau a fyddai fel arall o fewn cylch

gorchwyl yr awdurdod lleol i’w ddirprwyo i staff PREP. Roedd y staff yma yn mynychu carchdardai i drafod gyda gadawyr carchar ar ôl iddynt gael eu hasesu yn anghymwys am lety dros ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Roeddent yn rhoi cymorth i ddod o hyd i lety a thasgau cysylltiedig megis ffynonellu bondiau, dodrefn neu eirdaon:

> *Mae XXX yn cydgysylltu rhwng y carchardai, gwasanaeth prawf, ni ac unrhyw asiantaeth arall a allai fod yn gysylltiedig. Felly cyn iddyn nhw gael eu rhyddhau, rydyn ni wedi cael gwybod 56 diwrnod cyn iddyn nhw ddod allan, wedi’n hysbysu o’u dyddiad rhyddhau, mae gennym asesiad risg ac asesiad o anghenion ac unrhyw wybodaeth arall sydd arnom ei hangen, fel hanes lle maen nhw wedi byw o’r blaen a phethau felly (Rhanddeiliad Awdurdod Lleol).*

7.2.3 Roedd staff oedd yn gyfarwydd â phrosiect PREP yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y ffordd yr oedd yn gweithio i gydgysylltu gadawyr carchar â gwasanaethau. I rai, fodd bynnag, roedd cynllun PREP yn broblematig gan fod cael gafael arno yn dibynnu ar farn gynnar ynghylch hyglwyfedd a chymhwyster ar gyfer dyletswyddau s68:

> *Ddylsen ni ddim bod yn gwneud penderfyniad ynglŷn â blaenoriaeth bryd hynny, dyna oedd yn fy mhoeni i. Tydw i ddim yn gwbl gyfforddus gyda’r model yma (Rhanddeiliad Cymunedol).*

7.2.4 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr yn gadarnhaol at fenter newydd o’r enw “Justice Cymru”. Roedd staff Justice Cymru wedi cael eu gosod mewn timau CRC yn ne Cymru gyda’r dasg o gymryd atgyfeiriadau a helpu pob troseddwr i ddod o hyd i a/neu ddelio gyda materion llety. Byddai rhai atgyfeiriadau ar gyfer y rheiny oedd ar fin gadael carchar:

> *Mae bron iawn fel rôl gydgysyllu gyda gadawyr carchar heb gartref sefydlog, heb flaenoriaeth, sydd o bosib wedi ymddangos ger bron yr ALl sawl gwaith yn ystod eu hoes (gweithiwr Justice Cymru), rhyw fath o gydgysylltu felly rhwng yr ALl a'r troseddwr... helpu'r bobl anodd eu cyrraedd i gydgysylltu mewn ffordd (Rhanddeiliad Cymunedol).*

> *Mae XXX wedi darparu eiriolwr tai, sydd wedi'i leoli yn y swyddfa yma am rai dyddiau'r wythnos. Mae'n cynnig cyngor ac yn rhoi pobl ar ben ffordd, mae'n gysylltiad da i ni ac o nabod deddfwriaeth tai, os aiff pethau o'i le, mae xxx yn gwybod y gall ddod i weld xxxx, felly mae'r maes hwnnw wedi ei sortio (Swyddog Cyfrifol).*

7.2.5 Roedd rhai darparwyr tai yng ngogledd Cymru yn arbennig o gadarnhaol ynghylch menter Justice Cymru am eu bod yn credu fod yna fylchau neu wagleoedd yn eu tenantiaethau y gallai'r fenter fynd i'r afael â hwy:

> *Mae'n ymddangos fod yna ddatgysylltiad mawr rhwng y nifer o garcharorion y tybiaf sy'n gadael yn wythnosol a'r nifer sy'n treiglo i lawr trwyddon ni... gyda lwc bydd y peth Justice Cymru 'ma yn tynhau pethau a'u gwneud yn fwy uniongyrchol. (Rhanddeiliad Cymunedol).*

7.2.6 Fel yn achos gweithwyr PREP, fodd bynnag, rhoddodd rhanddeiliaid proffesiynol adroddiadau gwahanol o'r trefniadau strategol ac ymarferol oedd yn caniatáu i dasgau a fyddai o fewn cylch gorchwyl yr awdurdod lleol fel arall, gael eu dirprwyo i Justice Cymru. Ymddangosai hefyd fod yna bosibilrwydd y gallai staff PREP a Justice Cymru ymgysylltu â'r un gadawr carchar.

7.2.7 Roedd gwasanaethau PREP a menter Justice Cymru yn fwy sefydledig yn ne Cymru yn ystod y gwaith maes ar gyfer yr ymchwil hon. Gan hynny, roedd rhanddeiliaid proffesiynol o dde Cymru yn llai tebygol o fod yn besimistig ynghylch y modd yr oedd y Llwybr Cenedlaethol yn gweithio na rhanddeiliaid proffesiynol yn y gogledd. Wedi dweud hynny, roedd

rhanddeiliaid proffesiynol yn y gogledd yn ymgysylltu yn benodol gyda carcharorion oedd wedi'u lletya beth pellter oddi wrthynt ac yn Lloegr. Roedd y pellteroedd dan sylw yn creu rhwystrau ychwanegol i ymgysylltu â gadawyr carchar.

7.2.8 Yng ngogledd Cymru mae CEM Berwyn bron â chyrraedd y pwynt lle bydd yn rhedeg ar ei uchafswm gweithredol. Os bydd y carchar yn datblygu i fod yn garchar ailsetlo ar gyfer dynion o ogledd Cymru, disgwylir wedyn y byddai gweithgaredd ailsetlo yn cael ei gytgordio'n well ar gyfer carcharorion Cymreig yng ngogledd Cymru gan y byddai gadawyr carchar o ogledd Cymru yn cael eu llety yn nes at eu hardaloedd cartref; mewn carchar a fyddai'n haws i ddarparwyr gwasanaethau prawf, staff tai ac awdurdodau lleol ymweld ag ef; lle byddai gwasanaethau TTG yn cael eu darparu gan CRC Cymru sydd yn gyfarwydd â''r cyd-destun deddfwriaethol, gwleidyddol a pholisi cymdeithasol Cymreig.

7.2.9 Mewn un awdurdod lleol, roedd SPOC ar gyfer gadawyr carchar o fewn tîm tai'r awdurdod lleol yn annog staff NPS i gysylltu â hwy cyn i droseddwr fynd i'r llys ac, o bosibl, gael dedfryd o garchar. Yn yr achosion hynny, gellid cynllunio o flaen llaw er mwyn osgoi neu ddelio â digartrefedd adeg dedfrydu. Gwerth ychwanegol yr agwedd yma oedd gwell cyfnewid gwybodaeth a chysylltiadau agosach rhwng darparwyr gwasanaethau prawf a staff awdurodau lleol sy'n delio gyda charcharorion.

7.2.10 Mewn un ardal yn ne Cymru, roedd y SPOC tai yn cwrdd â staff prawf bob mis i ddynodi achosion perthnasol oedd ar fin cael eu rhyddhau. Mewn ardal arall yn ne Cymru, penwyd swyddog gyda'r NPS yn SPOC ar gyfer materion tai. Roedd y swyddog yma yn derbyn hysbysiadau o flaen llaw gan un carchar am bob carcharor o'u hardal nhw oedd ar fin cael eu rhyddhau ac oedd wedi bod yn gweld y tîm ailsetlo:

*Roedden nhw'n anfon rhestr o'r carcharorion yr oedden nhw fod i'w gweld, yna byddwn i'n annog y rheolwr troseddwyr i gysylltu â'r swyddog ailsetlo i drafod y cynllun… sicrhau fod y cais tai yn cael ei wneud, yna byddwn yn anfon yr asesiad risg ymlaen ac yn hwyluso cyfathrebu (Swyddog Cyfrifol).*

7.2.11 Mewn un swyddfa Prawf, ffurfiwyd is-grŵp llety MAPPA oedd yn cynnwys pum rheolwr tai a nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Roedd y grŵp yn archwilio ffyrdd o gael gafael ar lety i droseddwyr perthnasol ac wedi sefydlu proses i gyfeirio'r carcharorion oedd angen llety ar ôl cael eu rhyddhau i'r awdurdod lleol yn y cam cynllunio chwe-mis yn unol â phroses gynllunio MAPPA.

7.2.12 Roedd gwerthusiadau llai beirniadol o ddarpariaeth llety a wnaed ar gyfer gadawyr carchar yn gysylltiedig â datblygiadau'r llwybr y soniwyd amdanynt eisoes. Fodd bynnag, roedd adroddiadau o'u gwerth hefyd yn gysylltiedig â chyfeiriadau at aelod o staff arbennig o frwd ac egnïol oedd wedi hybu'r addasiad ers y cychwyn. Roeddent hefyd yn gysylltiedig ag ardaloedd gyda nifer gymharol isel o adawyr carchar. Gan hynny, nid oedd hygludedd yr addasiadau hyn yn eglur ac roedd rhai wedi pallu ar yr adegau pan gafodd yr aelod staff gwreiddiol ei adleoli.

7.2.13 Yn y cyd-destun lle'r oedd yn rhaid i lawer o adawyr carchar riportio i swyddfa tai eu hawdurdod lleol ar ôl cael eu rhyddhau, sylwodd rhanddeiliaid carchar a chymunedol ar y cyfraniad yr oedd gwasanaeth PACT wedi dechrau ei wneud. Mae staff PACT yn cwrdd â gadawyr carchar wrth giât y carchar, yn cadw mewn cysylltiad â nhw ac hyd yn oed yn mynd â nhw i apwyntiadau gyda darparwyr gwasanaethau prawf a thimau tai:

*Maen nhw'n cytuno i ddod i nôl y bois, sy'n beth da achos mae 'da ni fois gyda phroblemau alcohol ... sy ddim yn mynd i fynd at y gwasanaethau prawf, nag at y cyngor, mae PACT yn dda am eu bod yn gallu nôl y bois a mynd â nhw i'w hapwyntiadau (Rhanddeiliad Cymunedol).*

*Mae'n wasanaeth gwirioneddol dda, achos maen nhw'n mynd â nhw i'r adran tai ac i'r cyngor, yna'n mynd â nhw i'w llety dros dro (Swyddog Cyfrifol).*

7.2.14 Pryderai rhai rhanddeiliad cymunedol, fodd bynnag, fod gwasanaethau PACT ar gael am gost yn unig i garcharorion a oruchwyliwyd gan yr NPS ac oherwydd hynny yn dueddol o beidio â chael eu defnyddio mewn rhai ardaloedd.

## 8. Canlyniadau ac Argymhellion

8.1 Er mor feirniadol y gallai rhanddeiliaid proffesiynol fod o weithrediad y Llwybr Cenedlaethol, roedd y mwyafrif yn gwerthuso ei ddatblygiad fel cam i'r cyfeiriad cywir. Ymddangosai'r ddealltwriaeth hon i ddeillio o ganfyddiad fod y Llwybr 'mewn egwyddor' yn darparu mynediad i wasanaethau ar gyfer gadawyr carchar. Fodd bynnag, deallwyd fod ymroddiad a gallu rhai cyrff i gwrdd â'r galw ar hyd y llwybr yn gyfyngedig. Neilltuwyd darparwyr TTG a CRCs yn hyn o beth gan randdeiliaid proffesiynol a awgrymodd hefyd fod gan rai timau tai awdurdodau lleol fwy i'w wneud o ran symud tu hwnt i agwedd weithdrefnol a gweinyddol at ymarfer ac ymgysylltu mewn modd mwy pendant gyda gadawyr carchar er mwyn eu helpu i ddod o hyd i lety. Efallai fod mwy o adawyr carchar yn ddigartref wrth gael eu rhyddhau o'r ddalfa, ond cred llawer fod y lefel o gefnogaeth a roddir i'r rheiny sy'n gymwys am ymyriadau tai yn well yn y tymor canolig a hirach na chyn i'r Llwybr Cenedlaethol gael ei gyflwyno.

8.2 Dylai Llywodraeth Cymru:

- Barhau i werthuso a hyrwyddo gweithrediad y Llwybr Cenedlaethol.
- Datblygu systemau ar gyfer monitro deilliannau tai i adawyr carchar.
- Adolygu cytundebau cyflenwi PLC i sicrhau eu bod yn adlewyrchu gofynion llwyth gwaith yn ddigonol ac yn cynnwys cynlluniau wrth gefn o ran absenoldeb staff.
- Datblygu system sy'n annog mwy o weithio trawsffiniol rhwng awdurdodau lleol i gwrdd ag anghenion tai.
- Dileu 'digartrefedd bwriadol' fel maen prawf gwahardd ar gyfer tai.

8.3 Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a HMPPS:

- Adolygu cydymffurfiad cytundeb CRC a'r modd y mae anghenion gadawyr carchar yn cael eu rheoli o dan yr agenda Trawsnewid Adsefydlu.
- Dyfeisio systemau i fonitro statws llety cyn-droseddwyr ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar.
- Adolygu pwrpas a'r defnydd a wneir o BCS1 a BSC2.
- Sefydlu prosesau ar gyfer ailasesu anghenion tai ar adeg dedfrydu ac nid dim ond ar remand. Er mwyn gwneud hyn bydd angen galluogi i Gynllun Ailsetlo BCS2 gael ei ddiweddaru.
- Datblygu prosesau archwilio sy'n cynnwys amseroldeb ac asesu ansawdd arferion asesu risg ac atgyfeirio tai (Atodiad 8/9).
- Sefydlu prosesau yn y llys i gyflymu atgyfeiriadau i dimau tai pan fo unigolion yn derbyn dedfrydau carchar byr/adalwadau safonol.
- Sicrhau fod atgyfeiriadau tai yn cael eu cwblhau gan staff proffesiynol yn unig.
- Darparu ardal awdurdod lleol y carchar gyda rhestr chwarterol o garchararoion sydd ar fin gael eu rhyddhau a dynodi eu statws llety.
- Adolygu'r meini prawf cynhwysiad ar gyfer IOM er mwyn sicrhau fod troseddwyr 'cylch cas', sy'n symud yn gyflym i mewn ac allan o garchar yn cael y mynediad mwyaf dwys a'r mwyaf cefnogol i wasanaethau.
- Datblygu cyfleusterau Safleoedd Cymeradwyedig i ferched Risg Uchel.
- Gweithio o fewn y tri chyfarfod ailsetlo rhanbarthol i fireinio prosesau er mwyn sicrhau fod y Llwybr Cenedlaethol yn rhedeg yn esmwyth.
- Gweithio gyda charcharorion ailsetlo i hwyluso mynediad rheoledig i'r rhyngrwyd o fewn amgylchedd y ddalfa er mwyn hwyluso gweithgaredd ailsetlo.

- Archwilio’r posibiliadau o gyfunioni trefniadau cynllunio rhyddhau a llety fel bod yn rhaid i’r amodau trwydded gael eu dynodi (trwy’r PD1) 66 diwrnod cyn rhyddhau.
- Archwilio’r potensial ar gyfer datblygu darpariaeth i adawyr carchar ar hyd llinellau modelau BASS a Safleoedd Cymeradwyedig.

8.4 Dylai CRC Cymru ac NPS Cymru:

- Ddatblygu prosesau archwilio sy’n cynnwys amseroldeb ac asesu ansawdd arferion asesu risg tai (Atodiad 9).
- Cysylltu â chanolfannau merched lleol i sicrhau mynediad i wasanaethau rhywedd benodol a all gyfrannu at fynd i’r afael â’r anghenion cymhleth a lluosog sydd gan y rhan fwyaf o adawyr carchar benywaidd.
- Adolygu gweithrediad canolfannau Mewn-Cysylltiad i sicrhau fod pob gadawr carchar yn cael eu goruchwylio a’u monitro yn weithredol yn ystod cyfnod cymunedol eu dedfryd.
- Archwilio manteision cael staff pwrpasol (SPOC) i weithio gyda gadawyr carchar yn ôl model tîm ‘gofal drwy’r broses’.
- Gweithio o fewn y tri chyfarfod ailsetlo rhanbarthol i fireinio prosesau er mwyn sicrhau fod y Llwybr Cenedlaethol yn rhedeg yn esmwyth.

8.5 Dylai awdurdodau lleol:

- Sefydlu mecanweithiau ar gyfer archwilio a darparu adborth i garchardai, NPS a CRC ynghylch amseroldeb ac ansawdd atgyfeiriadau Atodiad 8 ac Atodiad 9.
- Archwilio manteision dirprwyo’r dasg o ymgysylltu a gweithio gyda gadawyr carchar yn y ddalfa nad ydynt mewn angen blaenoriaethol (yn ôl model PREP model) i staff pwrpasol.
- Sicrhau fod pob carcharor yn cael eu cyfweld (trwy ddolen fideo, ar y ffôn, neu wyneb yn wyneb) er dibenion dewisiadau tai.

- Datblygu cynlluniau unigol (PHPs) ar gyfer pob gadawr carchar sy’n eu cysylltu ag opsiynau tai ystyrlon yn y gymuned cyn iddynt gael eu rhyddhau.
- Sicrhau fod copïau o PHPs yn cael eu darparu i’r carcharor, tîm ailsetlo’r carchar a’r swyddogion cyfrifol.
- Datblygu prosesau archwilio mewnol cadarn sy’n cynnwys amseroldeb ac asesu ansawdd PHPs.
- Ymgysylltu â darparwyr tai i ddatblygu system o ddarparu carcharorion sy’n rhoi’r gorau i denantiaethau yn wirfoddol wrth gael eu derbyn gyda rhyw fath o ‘statws uwch’ wrth gael eu rhyddhau.
- Adolygu’r trothwyon a’r gofynion tystiolaethol sy’n gysylltiedig â rhoi statws Angen Blaenoriaethol, gan dalu sylw arbennig i berthnasedd y niwed sydd ynghlwm â dedfrydau carchar mynych.
- Ailasesu’r statws Angen Blaenoriaethol (adran 68 cymhwyster) pob carcharor ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
- Asesu pob unigolyn sy’n ymgyflwyno o fewn 7 diwrnod ar ôl cael eu rhyddhau ar y sail eu bod yn ‘Adawyr Carchar’.
- Hyfforddi staff mewn egwyddor o ymgysylltiad ac ysgogi troseddwyr da.
- Gweithio o fewn y tri chyfarfod ailsetlo rhanbarthol i fireinio prosesau er mwyn sicrhau fod y Llwybr Cenedlaethol yn rhedeg yn esmwyth.
- Parhau i hyrwyddo arferion sy’n canolbwyntio ar atal a lliniaru digartrefedd yn hytrach na dim ond asesu angen blaenoriaethol/ cymhwyster adran 75.
- Datblygu partneriaethau sy’n sbarduno darpariaeth llety sector preifat i adawyr carchar.

## Llyfryddiaeth

Clinks (2017) Briefing: Are the Accommodation Needs being met for people in contact with the criminal justice system? Chwefror 2017

Y Swyddfa Gartref (2004c) Cymunedau Hyderus mewn Prydain Ddiogel: Cynllun Strategol y Swyddfa Gartref Strategic 2004-08. Cm 6287. Llundain: Y Swyddfa Gartref

Mackie, P. a Hoffman, S. (2011). Deddfwriaeth Digartrefedd yng Nghymru: safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch gwelliannau posibl, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mackie, P., Thomas,I., Hidgson,K (2012a) Dadansoddi effaith deddfwriaeth digartrefedd bresennol yng Nghymru. Adroddiad i hysbysu'r adolygiad o ddeddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru http://www.senedd.assembly.wales/documents/s7352/impactanalysisofexistingdigartrefeddlegislationinwales.pdf

Mackie, P., Fitzpatrick, S., Stirling, T., Johnsen, S. and Hoffman, S. (2012b). Opsiynau ar gyfer Fframwaith Deddfwriaethol Digartrefedd Gwell yng Nghymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Mackie, P., Thomas, I., Fitzpatrick, S., Stirling, T., Johnsen, S. a Hoffman, S. (2012c). Asesu effeithiau newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru: adroddiad i hysbysu'r adolygiad o ddeddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Mackie,P (2015) Digartrefness Prevention and the Welsh Legal Duty: Lessons for International Policies Housing Studies, 2015 Vol. 30, No. 1, 40–59,

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012) Llety, Digartrefedd ac Aildroseddu gan Garcharion: Canlyniadau arolwg Arolygu Lleihau Troseddu Carcharorion (SPCR) gan Kim Williams, Jennifer Poyser a Kathryn Hopkins.

Social Exclusion Unit (SEU)(2002) Reducing reoffending by Ex-carcharorion: Summary of the social exclusion unit report. Llundain: SEU

Shelter (2015c) Cipolwg ar Ddigartrefedd - Gorffennaf 2015. http://sheltercymru.org.uk/digartrefedd-snapshot/

Cenhedloedd Unedig (2004).United Nations Demographic Yearbook review.

Watson, S. and Austerberry, H. (1986). Housing and Digartrefness: A Feminist Perspective. Llundain: Routledge and Kegan Paul.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2014) Paratoi i Atal. Pa mor barod yw'r Awdurdodau Lleol ar gyfer y newidiadau digartrefedd?